

## Rhagair

Dyma'r papur trafod pwysicaf i'r Comisiwn ei gynhyrchu ers cyhoeddi *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno: o Gydnabod i Gymodi* chwarter canrif yn ôl!

Fel yn achos y disgrifiad enwog o ddatganoli – 'proses nid digwyddiad' – proses yw Cyfamodi hefyd. Rhan hanfodol o'r broses honno yw ffurfio arolygiaeth fugeiliol ar y cyd yn allwedd i effeithiolrwydd parhaol ein hymdrechion cenhadol yng Nghymru heddiw.

Cyflwynodd ein Cyfamod yn 1975 y mater mewn dau gam:

Yn gyntaf, fe'n hatgoffodd o'r man lle'r ydym. Yr oeddem wedi cyrraedd y pwynt o gydnabod 'gweinidogaethau ordeiniedig ein holl eglwysi yn weinidogaethau gwirioneddol y gair a'r sacramentau, trwy y rhai y cyhoeddir Cariad Duw, y cyfryngir ei ras, ac y gweinyddir ei ofal Tadol.'

Yna, aeth ymlaen i'n herio ynglŷn â'r man lle y dylem fod nesaf. Dyna'r fan lle'r ydym yn awr: yn 'ceisio patrwm o weinidogaeth ordeiniedig y cytunir arno, yr hwn a wasanaetha'r efengyl mewn undeb, a arddengys ei pharhad drwy'r oesoedd, ac a dderbynnir cyn belled ag y gellir gan yr Eglwys drwy'r byd oll.'

Y mae'r papur hwn yn gyfraniad sylweddol at gyflawni'r bwriad cyfamodol hwn. Mae'n symud y drafodaeth ymlaen o'r syniadau yn *Tuag at benodi Esgob Ecwmenaid yng Nghymru* (1997), ac yn rhoi iddynt sylfaen gadarnach a mwy trefnus. Ar derfyn y cyfnod ymgynghori, ein gobaith yw y daw'r argymhellion a wneir yn y ddogfen hon – wedi eu coethi, efallai, gan ein cyd-ddoethineb – yn gynigion at y dyfodol.

Nid dyma'r gwaith terfynol. Papur trafod ydyw – ond trafod ag iddo bwrpas. A'r pwrpas hwnnw yw ceisio meddwl cyffredin Crist.

Rhwng yn awr a Chydgynulliad 2015, y gobaith yw y bydd y trafodaethau hyn, ar bob lefel o'n bywyd eglwysig: mewn plwyf a chynulleidfa, synod a chynhadledd, yn cyrraedd digon o gytundeb inni fedru gweld yn gliriach y ffordd ymlaen.

Wrth gymeradwyo'r papur hwn i'w drafod, ni allaf wneud yn well na'ch atgoffa o'r geiriau ysbrydoledig hynny ar derfyn y Cyfamod gwreiddiol:

Ni wyddom eto pa ffurf a gymer undeb. Down at ein tasg yn agored i'r Ysbryd. Credwn yr arwain Duw ei Eglwys i ffyrdd gwirionedd a thangnefedd, gan ei chywiro, ei chyfnerthu a'i hadnewyddu yn unol â meddwl Crist. Am hynny yr ydym yn cymell ein holl aelodau i dderbyn ei gilydd yn yr Ysbryd Glân fel y mae Iesu Grist yn ein derbyn ni, ac i ddal ar bob cyfle i gyd-dyfu drwy gydweiddio a chydaddoli gyda dealltwriaeth a chariad o bob tu fel yr adnewydder hwy ym mhob lle ar gyfer cenhadu.

### Gethin Abraham-Williams

Cadeirydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru  
2010 - 2012

## 1. Cylch Gorchwyl

- 1.1 Gofynnwyd i'r Gweithgor 'lunio, yn dilyn myfyrio Beiblaidd a diwinyddol, ddogfen y bydd pob un o'r pum Eglwys Gyfamodol yn cytuno arni ar y cyd ac sy'n crynhoi sut yr ydym yn deall y mater hwn ac yn datgan yn eglur pa batrwm o arolygiaeth fugeiliol a fyddai'n dderbyniol i bawb ohonom'.
- 1.2 Roedd y Gweithgor yn ymwybodol o'r angen i ymdrin â'r pwnc:
- yn yr hirdymor: a oes patrwm o arolygiaeth fugeiliol a fydd yn hwyluso sefydlu undod organig rhwng ein heglwysi?
  - yn y tymor canolig: pe byddai'r Eglwysi Cyfamodol yn derbyn patrwm o'r fath, beth fyddai sefyllfa gweinidogion a ordeiniwyd eisoes o fewn y cynllun?
  - yn y tymor byr: pa batrwm o arolygiaeth fugeiliol sy'n dderbyniol ac yn ymarferol yn achos Partneriaethau Eciwmenaid Lleo?

## 2. Y Cefndir yn y Testament Newydd

- 2.1 Dychwelodd y Gweithgor at y testunau perthnasol yn y Testament Newydd. Er ei bod yn eglur mai i'r apostolion y perthynai'r awdurdod yn yr eglwys yn y Testament Newydd (cf. Actau 2. 42 'yr oeddent yn dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion ac yn y gymdeithas') a bod tystiolaeth sylweddol i weinidogaeth diaconiaid (cf. Actau 6.1-6, Philipiaid 1.1, 1 Timotheus 3.8 a 3.12) a phresbyteriaid (cf. Actau 14.23, 15.6, 20.17), roedd y Gweithgor yn gytûn mai amhendiant yw'r dystiolaeth yn y Testament Newydd am weinidogaeth driphlyg esgobion, offeiriaid a diaconiaid.
- 2.2 Dim ond yn yr adnodau canlynol y digwydd y ferf *episcopos* a'r enwau *episcopus* ac *episcopos* yn y Testament Newydd (daw'r Gymraeg o Argraffiad Diwygiedig y Beibl Cymraeg Newydd; ceir cyfieithiadau amgen mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg eraill) ac nid yw'r un ohonynt yn gwahaniaethu o safbwynt ystyr rhwng y gair *episcopos* a'r gair a ddefnyddir yn amlach o lawer, sef *presbuteros* ('henuriad' a oedd ag awdurdod dros yr eglwys, a tharddiad y gair Saesneg 'priest'):
- 2.2.1 *episcopos*:  
**Hebreaid 12.15:** *Cymerwch ofal* na chaiff neb syrthio'n ôl oddi wrth ras Duw;  
**1 Pedr 5.2:** Bugeiliwch braidd Duw sydd yn eich gofal, [ychwanega rhai ffynonellau hynafol *gan arfer yr arolygiaeth*] nid dan orfod, ond o'ch gwirfodd.
- 2.2.2 *episcopus*:  
**Luc 19.44:** ni adawant faen ar faen ynot ti, oherwydd dy fod heb adnabod yr amser pan *ymwelwyd* â thi;  
**Actau 1.20:** "Aed ei gartrefle yn anghyfannedd, heb neb yn byw ynddo" a "Cymered arall ei *oruchwyliaeth*";  
**1 Timotheus 3.1:** Pwy bynnag sydd â'i fryd ar *swydd arolygydd*, mae'n chwennych gwaith rhagorol;  
**1 Pedr 2.12:** nes iddynt hwy ogoneddu Duw yn nydd ei *ymweliad* ar gyfrif yr hyn a welant o'ch gweithredoedd da chwi.

### 2.2.3 *episcopos/episcopi:*

**Actau 20.28:** Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd, y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn **arolygwyr** drosto;

**Philipiad 1.1:** Paul a Thimotheus, gweision Crist Iesu, at yr holl saint yng Nghrist Iesu sydd yn Philipi, ynghyd â'r **arolygwyr** a'r diaconiaid;

**1 Timotheus 3.2:** Felly rhaid i **arolygydd** fod heb nam ar ei gymeriad;

**Titus 1.7:** Oherwydd rhaid i **arolygydd fod yn ddi-fai**, ac yntau yn oruchwyliwr yng ngwasanaeth Duw;

**1 Pedr 2.25:** Oherwydd yr oeddech fel defaid ar ddisberod, ond yn awr troesoch at Fugail a **Gwarchodwr** eich eneidiau.

### 2.2.4 Mae peth tystiolaeth i awgrymu bod y termau *episcopi* a *presbyteroi* yn rhai y gellid eu cydgyfnewid yn yr Eglwys Fore. Cyfeiria 1 Timotheus 5.17 at 'yr henuriaid sy'n arweinwyr da' ac ymddengys bod 1 Pedr 5.1 yn annog yr 'henuriaid' i fugeilio 'praidd Duw sydd yn eich gofal [*episcopeo*]'

## 3. Y Cefndir Hanesyddol

Ymddengys i'r sefyllfa barhau'n hyblyg yn y gymuned Gristnogol yn y ganrif gyntaf.

- 3.1 Ignatiws, yn y ganrif gyntaf, yw'r awdur Cristnogol cyntaf y gwyddom amdano a fynnodd deyrngarwch i esgob a gynorthwyr gan bresbyteriaid a diaconiaid.
- 3.2 Ar y llaw arall, mae ei gyfoeswr Clement, yn ei lythyr at yr eglwys yng Nghorinth (tua'r flwyddyn 96), yn cyfeirio at awdurdod apostolaidd yr *episcopi* (arolygwyr, esgobion) a'r *presbyteroi* (henuriaid, presbyteriaid) fel ei gilydd, gyda diaconiaid yn eu cynorthwyo.
- 3.3 Mae'r Didache (Dysgeidiaeth y Deuddeg Apostol), traethawd Cristnogol cynnar o ddiwedd y ganrif gyntaf neu ddechrau'r ail, yn rhoi'r cyngor a ganlyn i'r Eglwys Fore: 'Rhaid i chwi ddewis ar eich cyfer eich hunain esgobion a diaconiaid sydd yn deilwng o'r Arglwydd: dynion sydd yn wylaidd ac nad ydynt yn eiddgar am arian, ond yn ddiwyll ac yn gymeradwy; oherwydd y maent yn arfer gweinidogaeth y proffwydi a'r athrawon er eich mwyn'. Nid ymddengys bod unrhyw sôn am bresbyteriaid yma.
- 3.4 Yng ngwaith Hipolytws, y 'Traddodiad Apostolaidd', o'r drydedd ganrif, ceir cyfarwyddiadau at ordeinio esgobion, offeiriaid a diaconiaid. Myn Hipolytws nad yw diacon 'yn cael ei ordeinio i'r offeiriadaeth ond yn hytrach i wasanaethu'r esgob', tra myn bod gan bresbyter 'y gallu i dderbyn ond nid y gallu i roi [yr Ysbryd]' ac nad yw, felly, yn ordeinio clerigion.
- 3.5 Ymddengys i hynny ddatblygu i fod yn drefn arferol yr Eglwys o oddeutu canol yr ail ganrif. Byddai esgobion yn arwain eglwysi yn y dinasoedd (defnyddir y term *metropolitan* am rai esgobion hyd heddiw) gyda diaconiaid yn eu cynorthwyo. Wrth i'r nifer o eglwysi gynyddu ni allai'r esgobion lywyddu yn y cymun ym mhob un ohonynt a phenodasant *presbyteroi* i wneud y gwaith ar eu rhan.
- 3.6 Dywed athrawiaeth yr Olyniaeth Apostolaidd mai'r esgobion yw olynwyr detholedig y Deuddeg Apostol a'u bod wedi etifeddu'r awdurdod, y grym a'r cyfrifoldeb ysbrydol, eglwysig a sacramentaidd a roes Iesu ei hun i'r Apostolion. Ystyrid bod rhaid wrth esgob i ordeinio'n ddilys offeiriaid, diaconiaid ac esgobion eraill. Myn Eglwysi a saif o fewn yr hen olyniaeth esgobol mai dim ond drwy olyniaeth apostolaidd sy'n cynnal y dilyniant esgobol o'r Eglwys Fore y bydd ordeiniad unrhyw un i'r weinidogaeth Gristnogol yn ddilys.

- 3.7 Adeg y Diwygiad Protestannaidd dewisodd yr Eglwys Anglicanaidd, ynghyd â rhai Eglwysi Lwtheraidd, barhau â'r patrwm triphlyg o weinidogaeth a etifeddiwyd o'r Eglwys Gatholig. Rhennir y patrwm hwnnw hefyd â'r Hen Eglwys Gatholig, a dyfodd yn ystod y tair canrif ddiwethaf gan gychwyn ag Archesgobaeth Utrecht yn yr Iseldiroedd ym 1725. Dywed Llyfr Gweddi Gyffredin yr Anglicaniaid, 1664:

Hysbys yw i bawb yn dyfal ddarllen yr Ysgrythur Lân a hen Awduron bod y Graddau hyn o Weinidogion yn Eglwys Grist ers amser yr Apostolion, sef, Esgobion, Offeiriaid a Diaconiaid. A'r cyfryw barchus fri ydoedd erioed ar y Swyddau hyn fel na allai neb ryfygu gweini yn yr un ohonynt oddi eithr yn gyntaf iddo gael ei alw, ei brofi, ei holi ac amlygu fod ganddo gyneddfau cymwys i'r unrhyw; ac oddi eithr hefyd cael, drwy Weddi gyhoedd, ynghyd ag Arddodiad Dwylo, ei gymeradwyo a'i dderbyn i'r Swydd gan Awdurdod gyfreithlon.

- 3.8 Mae Anglicaniaid, fodd bynnag, yn anghytuno ymhlith ei gilydd a yw esgobion yn hanfodol i'r Eglwys ai peidio. Mae rhai'n dilyn Richard Hooker (tua 1554-1600), a ddadleuai nad oedd esgobyddiaeth yn rhan o esse (hynny yw, hanfod) Cristnogaeth, ond bod esgobion yn angenrheidiol ar gyfer *bene esse* (hynny yw, lles gorau) yr Eglwys. Mae eraill yn dilyn y Tractariad John Keble (1792-1866), a gredai na all fod Eglwys heb esgobion.
- 3.9 Arweiniodd athrawiaethau *Sola Fide* (Drwy Ffydd yn Unig) a *Sola Scriptura* (Yn ôl yr Ysgrythur yn Unig) Eglwysi eraill a dyfodd o'r Diwygiad Protestannaidd i fynnu nad yw'r Testament Newydd yn dysgu'r olyniaeth apostolaidd ac nad yw dilyniant di-dor o esgobion yn angenrheidiol. Iddynt hwy ystyr 'olyniaeth apostolaidd' yw parhau'n ffyddlon i'r ddysgeidiaeth apostolaidd. Mae Eglwysi Presbyteraidd a Diwygiedig yn arfer trefn weinidogaethol ddeublyg o fugail a blaenor. Dim ond y bugeiliaid a ystyrir yn 'glerigion'; cynhwysa urdd y blaenoriaid bobl leyg sy'n ffurfio cyrff llywodraethu cynulleidfaoedd ac sy'n gyfrifol am addoliad y gynulleidfa.
- 3.10 Y sefyllfa bresennol yn achos yr Eglwys yng Nghymru yw mai dim ond esgob, sy'n symbol o undod a pharhad, a all ordeinio, ac mae pwyslais ar yr agweddau offeiriadol a sacramentaidd ar y weinidogaeth. Yn yr eglwysi anesgobol, cynulliad o weinidogion, gyda chyfraniad gan bobl leyg mewn rhai achosion, sy'n ordeinio ar y cyd, a cheir pwyslais ar bregethu ac addysgu. Ym mhob achos, mae gofyn dilyn cwrs hyfforddiant diwinyddol ac ymarferol cyn y gellir ordeinio unrhyw un.

## 4. Yr Eglwys yng Nghymru

4.1 Mae'r Eglwys yng Nghymru, fel yr eglurir yn ei Hordinal newydd, yn ystyried bod i esgob weinidogaeth driphlyg:

### 4.1.1 *Addysgu*

Gyda'u cyd-escobion y maent i warchod y ffydd a dderbyniasom oddi wrth yr apostolion ac i gyhoeddi efengyl teyrnas Dduw. Fel pen bugeiliaid, y mae'n ddyletswydd arnynt gadw undod yr Eglwys, llefaru yn enw Duw a dehongli efengyl iachawdwriaeth.

### 4.1.2 *Sancteiddio*

Y maent i arwain eu pobl mewn gweddi a mawl, a llywyddu yn y Cymun Bendigaid. Y maent i fedyddio a chonffirmio, i faddau pechodau ac i fendithio, gan faethu pobl Dduw ym mywyd yr Ysbryd a'u harwain ar hyd llwybrau sancteiddrwydd.

### 4.1.3 *Llywodraethu*

Y maent i arwain yr Eglwys ac i ymarfer awdurdod oddi mewn i gymuned y ffydd. Y maent i ordeinio diaconiaid ac offeiriaid ac adeiladu Corff Crist mewn ufudd-dod cariadus i ewyllys Duw.

4.1.4 Yn ogystal, gelwir esgobion i fod yn arweinwyr mewn **cenhadu**:

Ynghyd â'u clerigion a'r bobl y maent i hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys ac i ofalu am bawb, yn enwedig y tlawd, y digartref a'r anghenus. Gan ddilyn esiampl yr apostolion, y maent i gyhoeddi'r efengyl, i lefaru'r gwirionedd yn ddewr ac i weithio dros gyfiawnder a heddwch.

4.2 Yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, 1664, cyfeirir at yr esgob fel yr 'Ordinari' (y gweinidog arferol). Ef sy'n llywyddu ar y Gair a'r Sacrament yn ei esgobaeth. Felly gweinidog *anarferol* yw pob gweinidog arall sy'n derbyn awdurdod yr esgob i ranu i 'eneidiau sydd eiddo fi ac eiddot tithau'. Gydag eithriadau prin, pan fo esgob yn bresennol mewn gwasanaeth mewn eglwys o fewn ei esgobaeth, ef fydd yn llywyddu yn y Cymun Bendigaid ac yn pregethu.

4.3 Cred yr Eglwys yng Nghymru mai gwaith yr esgob yw goruchwyllo bywyd yr Eglwys, diogelu'r Ffydd Gristnogol a ymddiriedwyd i'w ofal a hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys. Mae ganddo felly swyddogaeth driphlyg:

4.3.1 Mae'n edrych yn ôl i'r gorffennol er mwyn gallu dirnad a dysgu'r ffydd a dderbyniwyd oddi wrth yr apostolion; yn y swyddogaeth hon bydd yr esgob yn gyfrifol am ordeinio – am geisio a chomisiynu'r rhai y mae Duw'n eu galw i'r weinidogaeth ordeiniedig.

4.3.2 Mae'n goruchwyllo'r presennol gan geisio sicrhau bod yr Eglwys yn parhau'n ffyddlon i Grist a'i genhadaeth; yn y swyddogaeth hon yr esgob yw'r llywydd yn y Cymun Bendigaid, y wledd lle mae Duw'n bwydo'i bobl.

4.3.3 Mae'n dirnad y dyfodol gan fod yn barod i weithredu'n broffwydol i alw'r Eglwys i dyfu dan lywodraeth Duw; yn y swyddogaeth hon bydd yr esgob yn addysgu'r ffydd ac yn cymhwyso dysgeidiaeth awdurdodedig yr Ysgrythurau i'r gymdeithas gyfoes.

- 4.4 Mae'r Eglwys yng Nghymru hefyd yn derbyn y diffiniad o *episcopa* a geir yn y papur Ffydd a Threfn, *Baptism Eucharist and Ministry*, a gyhoeddwyd gan Gyngor Eglwysy'r Byd ym 1982, sef ei bod yn weinidogaeth hanfodol ym mywyd yr Eglwys. Mae diffiniadau modern o'r term yn nodi tair agwedd ar *episcopa*:
- 4.4.1 Rhaid i *episcopa* fod yn **bersonol**: Cred Cristnogion fod Duw yn llefaru â ni drwy bobl – drwy broffwydi'r Hen Destament ac yn olaf drwy Berson Iesu Grist. Felly rhaid i'r Eglwys gael ei harwain nid gan sefydliadau ond gan unigolion. Rhydd Anglicaniaeth i'w phrif fugeiliaid, sef yr esgobion, y cyfrifoldeb i lefaru ar ran yr eglwys leol a'r ddyletswydd i ddirnad a llefaru Gair Duw mewn man penodol.
- 4.4.2 Rhaid i *episcopa* fod yn **golegol**: Nid ar ei ben ei hun y bydd yr esgob yn arwain yr Eglwys. Mae pob esgob yn aelod o goleg o esgobion y mae'n rhannu ei weinidogaeth â hwy. Bydd esgob yn arwain drwy osod esiampl i glerigion ond, ar yr un pryd, bydd yn derbyn cyngor gan y clerigion ac yn adeiladu consensws. ('Derbyn ofal eneidiau sydd eiddo fi ac eiddot tithau.') Yn y drefn Anglicanaidd mae hefyd bwyslais arbennig ar swyddogaeth golegol y lleygion mewn dirnad a llywodraethu.
- 4.4.3 Rhaid i *episcopa* fod yn **gymunol**: Ni fodola *episcopa* ar ei ben ei hun. Rhodd a galwedigaeth ydyw er budd pobl Dduw. Rhaid i bob esgob fod wedi'i wreiddio mewn cymuned real, fyw, ac o'r herwydd, yn y drefn Anglicanaidd, bydd esgob fel arfer yn esgob mewn man penodol – Bangor, Llandaf ac ati. Fe'i gelwir i fod yn brif fugail ar ran benodol o bobl Dduw, i arwain cenhadaeth Duw mewn lle penodol, i weithio mewn cyddestun penodol ac i gydb lethu mewn un lle orffennol, presennol a dyfodol yr Eglwys.
- 4.4.4. Mae esgobion yr Eglwys yng Nghymru'n gweithio'n unol â'r patrwm hwnnw: unigolion ydynt sydd wedi'u galw i weinidogaeth bersonol. Maent yn gweithio gyda chorff arbennig o glerigion yn yr esgobaeth, gyda'u Coleg cenedlaethol eu hunain (y Fainc) a chyda'u cynghorau (Cynhadledd yr Esgobaeth a'r Corff Llywodraethol). Maent hefyd yn gwasanaethu cymuned benodol.
- 4.5 Amlygir *episcopa* ym mhob haen o fywyd yr Eglwys. Yn yr un modd ag y mae pob esgobaeth megis eglwys leol wedi'i chynnull o gwmpas ei hesgob, mae'r Eglwys yng Nghymru hithau'n Eglwys sydd wedi'i chynnull o gwmpas ei harchesgob, sydd â gweinidogaeth benodol i Gymru gyfan fel cymuned.
- 4.6 Mae esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn rhan o deulu ehangach o esgobion. Rhoddir iddynt yr hawl i gynrychioli'r eglwys leol i'r Eglwys gyfan ac i gynrychioli'r Eglwys gyfan i'r eglwys leol. Dyna paham y mae Mainc yr Esgobion, Cynhadledd Lambeth a llawer iawn o fforymau ymgynghori eraill mor bwysig. Ni saif esgobaeth leol ar ei phen ei hun; mae'n rhan organig o gorff Crist yn ei gyfanrwydd. Cysyniad colegol yw *episcopa* gyda'r esgobion yn cydweithredu â'i gilydd ac yn cynnull coleg o bresbyteriaid o'u cwmpas.

## 5. Y Bedyddwyr Cyfamodol

- 5.1 Seilir y drefn Fedyddiedig ar gynnull ynghyd y credinwyr mewn cynulleidfa leol. Ystyrir bod pob cynulleidfa'n alluog i drefnu ei bywyd, ei haddoliad a'i thystiolaeth ei hun. Golyga dealltwriaeth y Bedyddwyr o weinidogaeth eu bod yn awr yn ordeinio gweinidogion arbenigol i ieuencid ac efengyleiddwyr yn ogystal â bugeiliaid ac athrawon, ac yn cydnabod gweithwyr eglwysig. Gall gweithwyr eglwysig fod yn rhai sy'n gweithio gyda phlant neu deuluoedd neu ieuencid, neu'n gweithio yn y gymuned ehangach.
- 5.2 Rhaid ystyried y weinidogaeth yng nghyd-destun y ddealltwriaeth a'r arfer uchod. Nid oes y fath beth â'r 'Eglwys Fedyddiedig', dim ond eglwysi Bedyddiedig.
- 5.2.1 Caiff gweinidogion y Bedyddwyr eu hachredu. Nid yw achrediad yn rhoi awdurdod; y mae'n cadarnhau galwad, cymhwyster a pherthynas gyfamodol â'r teulu ehangach. Daw awdurdod gweinidogion y Bedyddwyr, os oes awdurdod, ar y lefel leol o gael eu cydnabod gan eu heglwys leol a'u cymeradwyo i bwyllgor o'r Gymanfa a fydd yn ymchwilio'i i'w profiad o alwad a'u haddasrwydd yn gyffredinol.
- 5.2.2 Os bodlonir y pwyllgor hwnnw bydd yn argymhell rhaglen o astudio, fel arfer yn un o golegau'r Bedyddwyr, a fydd yn arwain at radd neu ddiploma mewn diwinyddiaeth. Ar hyn o bryd ni ellir dod yn weinidog achredig heb astudio mewn coleg.
- 5.2.3 Dim ond pan fydd ymgeisydd yn derbyn 'galwad' gan eglwys leol i ddod yn fugail arni y bydd yn dod yn gymwys i'w ordeinio a'i gydnabod ar restr gweinidogion achredig Undeb y Bedyddwyr. Bydd gweinidogion sy'n gwasanaethu fel Tiwtoriaid yng ngholegau'r Bedyddwyr a'r rhai sy'n gwasanaethu mewn gweinidogaethau sector neu fel caplaniaid yn cychwyn ar eu gweinidogaeth mewn eglwys leol ac yna'n symud ymlaen i'r meysydd arbenigol hyn gan gadw'u hachrediad.
- 5.2.4 Ar ôl ei ordeinio, bydd y gweinidog yn derbyn ychwaneg o hyfforddiant fel Gweinidog Newydd ei Achredu. Ar derfyn y 3 neu 4 blynedd a gymer hynny bydd yr Undeb yn cadarnhau ei achrediad ac yn ei groesawu i Gymanfa'r Undeb. Ni olyga hynny unrhyw newid yn ei statws na'i freintiau.
- 5.2.5 Yr eglwys leol sy'n talu cyflog y gweinidog, yn darparu llety ac yn talu treuliau'r gwaith. Gall yr eglwys wneud cais am 'gymorth' oddi wrth Undeb y Bedyddwyr at benodi gweinidog achredig i gynorthwyo'r eglwys yn ei chenhadaeth.
- 5.2.6 Gellir tynnu enw gweinidog oddi ar y 'rhestr achredig' os yw bellach heb swydd gymwys. Rhoddir amser i ddod o hyd i swydd newydd, ond cysylltir achrediad bob amser â swydd, ac eithrio pan fydd y gweinidog wedi ymddeol.
- 5.3 Mae angen gwahaniaethu rhwng credoau ac arferion y Bedyddwyr â rhai'r enwadau mwy strwythuredig, yn enwedig eiddo'r enwadau sy'n rhoi gwerth ar yr hen olyniaeth esgobol a hefyd eglwysi fel y Methodistiaid lle yr ordeinir gweinidogion mewn man canolog ar gyfer cymuned fawr genedlaethol neu Brydeinig.
- 5.4 Gwrthyd y Bedyddwyr y syniad o olyniaeth apostolaidd ac ni dderbyniant fod tystiolaeth yn yr Ysgrythurau o blaid trefn eglur na sefydlog o lywodraethu eglwysig. Nid yw Bedyddwyr, gan fwyaf, felly, yn synio'n 'uchel' am ordeinio. Mae'n well gan leiafrif ohonynt beidio â defnyddio'r term o gwbl. Digwydd ordeinio gan amlaf yn yr eglwys gartref a'r sefydlu yn yr eglwys sy'n galw.

- 5.4.1 Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y modd yr 'arweiniwyd' y bugail a'r bobl at ei gilydd. Bydd hynny'n cynnwys 'hanes yr alwad' mewn dwy ran: bydd un o ddiaconiaid blaenllaw'r eglwys sy'n galw'n traddodi'r rhan gyntaf a'r gweinidog ei hun yr ail. Mae perthynas ysbrydol ac emosiynol gref iawn rhwng y bugail a'r bobl.
- 5.4.2 Daeth bellach yn arferol i rai swyddogion eraill gymryd rhan yn yr ordeinio (er enghraifft, gweinidog(ion) rhanbarthol y Gymanfa, cynrychiolydd o blith aelodau staff coleg y gweinidog, gweinidog(ion) a fu'n gyfrifol am fentora'r gweinidog, ac ati).
- 5.4.3 Bydd y gweinidog, swyddogion yr eglwys leol a'r gweinidog rhanbarthol yn trafod trefn y gwasanaeth. Bydd y gwasanaethau Ordeinio Gweinidog, Sefydlu Gweinidog a Chomisiynu at Weinidogaeth Ehangach yn awr yn dilyn y patrwm yn llyfr gwasanaeth Undeb y Bedyddwyr, *Gathering for Worship* (Canterbury Press, 2005). Gan fod Gweinidogion Rhanbarthol yn cynrychioli'r eglwys ehangach a'r corff achredu, gwneir yr un addunedau gan bawb a ordeinir. (Os yw'r eglwys leol yn ordeinio rhywun nas achredwyd, gall ofyn beth a fyn.)
- 5.4.4 Byddir fel arfer hefyd yn holi aelodau'r eglwys a alwodd y gweinidog, gan ofyn iddynt a ydynt yn barod i'w dderbyn a'i gefnogi. Yn amlach na pheidio'r dyddiau hyn bydd yr ordeinio'n cynnwys arddodi dwylo. Nid oes gan yr un o'r gweinidogion a fydd yn bresennol hawl awtomatig i wneud hynny – mae'r cyfan yn digwydd ar wahoddiad y gynulleidfa leol. Ond fe fydd gweinidogion gwadd eraill yn ymuno â'r gweinidog rhanbarthol a wahoddwyd i lywyddu.
- 5.4.5 Fel rheol, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn arddodi dwylo i weddïo, ac yna bydd y Gweinidog Rhanbarthol yn cynnig deheulaw cymdeithas gan ddatgan bod yr unigolyn wedi cael ei ordeinio a'i/ neu ei sefydlu.
- 5.4.6 Defnyddia rhai gweinidogion, ond nid eraill, y geiriau 'gweinidog y gair a'r sacramentau'. Byddai rhai'n eu disgrifio eu hunain fel 'gweinidogion y gair' yn unig, gan ystyried y sacrament yn weithred gymunol – nid rhywbeth y mae'r gweinidog yn ei wneud ond rhywbeth y mae ganddo'r fraint o'i arwain. Golyga hynny y gall pregethwr lleyg neu aelod blaenllaw o'r eglwys leol arwain gwasanaeth y cymun ar wahoddiad yr eglwys honno.
- 5.4.7 Ni ordeinir y gweinidog yn offeiriad. Cred y Bedyddwyr yn gryf iawn yn 'Offeiriadaeth yr holl Gredinwyr'. Mae'r holl gynulleidfa'n cynrychioli Crist gerbron y gymuned ac mae pob aelod yn efenglydd. Mae'r gynulleidfa wedi galw rhywun i fod yn arweinydd ac yn alluogwr iddi.
- 5.5 Rhennir Undeb y Bedyddwyr yn 13 o Gymanfaoedd. Mae gan bob Cymanfa dîm o Weinidogion Rhanbarthol sydd i fod yn fugeiliaid i'r bugeiliaid ac i dimau arwain pan na fo bugail. Fodd bynnag, y mae swydd y Gweinidog Rhanbarthol yn llawer ehangach na hynny ac yn amrywio yn ôl yr hyn y penodwyd ef i'w wneud.
- 5.6 Fe geir swydd a theitl esgob ar hyn o bryd ymysg Bedyddwyr Georgia. (Yn ddiweddar penodwyd gweinidog gyda'r Bedyddwyr, y Parchedig Michael Cleaves, a fu'n gweinidogaethu gynt ym Mhartneriaeth Eciwmenaid Dwyrain Caerdydd, yn Apocrisarius, sef Cynrychiolydd Esgobol Eglwys Efengylaidd Georgia i Undeb Bedyddwyr Prydain a'r Eglwysi Rhyddion ym Mhrydain. Ef yw'r cyntaf i ddal y swydd honno.)



## 6. Yr Eglwys Fethodistaidd

- 6.1 Yn 2000 mabwysiadodd y Gynhadledd Fethodistaidd y Canllawiau a ganlyn yn ddatganiad cryno o safbwynt yr Eglwys Fethodistaidd ar *episcople* ac esgobyddiaeth.
- 6.2 **Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cydnabod bod *episcople* ar waith o fewn bywyd yr eglwys mewn modd cymunol, cynghoraidd a phersonol.**
- 6.2.1 **Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cofleidio *episcople* cymunol drwy'r cyrff cynrychioliadol sydd ar waith ym mhob rhan o fywyd yr Eglwys.** Mae cyfarfodydd cynrychioliadol y Gynhadledd a'r Synodau Taleithiol a'r Cyfarfodydd Cylchdaith a'r Cynghorau Eglwysig oll yn enghreifftiau o *episcople* cymunol ar waith.
- 6.2.2 **Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cofleidio *episcople* cynghoraidd a'r traddodiad o ddilyn yr egwyddor gynghoraidd nid yn unig ymhlith y rhai sy'n aelodau o'r un urdd weinidogaethol ond hefyd ymysg lleygion a phobl ordeiniedig yn gyffredinol.** Ceir enghreifftiau o'r egwyddor gynghoraidd ar waith yn Sesiwn y Gweinidogion yn y Gynhadledd a hefyd yng Nghyfarfodydd Lleol Pregethwyr Lleyg a Phwyllgorau Bugeiliol eglwysi lleol, lle rhennir arolygiaeth gynghoraidd rhwng pobl ordeiniedig a phobl leyg.
- 6.3 **Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cofleidio *episcople* personol ym mhob agwedd ar fywyd yr Eglwys ond cred y dylid arfer yr arolygiaeth honno o fewn cyd-destun cynghoraidd neu gymunol.** Mae'n bwysig caniatáu arfer *episcople* personol o fewn strwythurau'r Cyfundeb mewn ffyrdd sy'n gyson â'r modd y'i harferir yn y Cylchdeithiau a'r Taleithiau. Gan mai arolygiaeth ddirprwyol neu gynrychioliadol yw'r *episcople* a arferir gan unigolion ym mywyd yr Eglwys Fethodistaidd mae'n bwysig bod y rhai sy'n arfer *episcople* personol yn parhau'n atebol i'r Eglwys ehangach. Rhaid cydnabod y gall yr angen i fod yn atebol a'r angen i warchod cyfrinachedd priodol weithiau wrthdaro â'i gilydd.
- 6.4 **Eglwys gyfundebol yw'r Eglwys Fethodistaidd a dylid arfer pob agwedd ar *episcople* o fewn y cyd-destun hwnnw. Wrth ddatblygu unrhyw strwythurau dylid talu sylw priodol i'w heffaith ar fywyd yr Eglwys gyfan. Mae angen cadw cydbwysedd priodol rhwng, er enghraifft, Cylchdaith a Thalaith a Thalaith a'r Cyfundeb.** Er ei bod yn cydnabod gwerth trefniadaeth ar batrwm esgobaethau, byddai'r Eglwys Fethodistaidd yn bryderus ynghylch datblygu unrhyw batrymau o *episcople* personol a fyddai'n ynysu'r Taleithiau oddi wrth yr Eglwys fel cyfangorff.
- 6.5 **Cychwynnodd yr Eglwys Fethodistaidd fel symudiad cenhadol ac erys cenhadu'n ganolog i'w bywyd. Cred Methodistiaid mai un o brif amcanion *episcople* yw hwyluso ac ysgogi cyfranogiad yr Eglwys yng nghenhadaeth Duw.** Roedd y swyddogaeth genhadol yn ystyriaeth bwysig wrth gyflwyno Cadeiryddion 'ar wahân'. Mae profiad rhai Eglwysi Methodistaidd, gan gynnwys yr Eglwys Fethodistaidd Unedig, sydd wedi mabwysiadu patrymau esgobol o arolygu, yn cynnig cyneiliau addawol i ffurfiau o *episcople* sydd â chenhadu'n ganolog iddynt.

- 6.6 Er mwyn hwyluso'r daith tuag at undod gweladwy Eglwys Crist, byddai'r Eglwys Fethodistaidd yn gwbl fodlon derbyn arwydd yr olyniaeth esgobol ar yr amod bod y partneriaid eciwmenaidd sy'n rhannu'r arwydd hwnnw â'r Eglwys Fethodistaidd (a) yn cydnabod bod yr Eglwys honno heddiw a'i bod yn y gorffennol yn rhan o'r un Eglwys lân gatholig ac apostolig a (b) yn cydnabod bod gwahanol ffyrdd o ddehongli union arwyddocâd yr arwydd.**

Parthed (a), roedd hynny'n rhywbeth a fynnodd y Gynhadledd oddi wrth Eglwys Loegr ym 1955 wrth i'r 'Cyd-drafod' gychwyn. Byddai llawer o bobl yn yr eglwysi sy'n bartneriaid i ni hwythau'n awyddus i sicrhau na fyddid yn gwneud dim wrth uno gweinidogaethau a fyddai'n awgrymu i weinidogaethau blaenorol fod yn ddirym neu'n annilys.

Parthed (b), mynnodd Methodistiaeth eisoes y dylai fod rhyddid i ddehongli arwyddocâd yr hen olyniaeth esgobol. Gall synio am esgobyddiaeth fel 'arwydd ond nid gwarant o apostoligrwydd yr Eglwys' fod yn dderbyniol i lawer fel tystiolaeth o'r modd y mae esgobyddiaeth yn tystio'n symbolaidd i ddolenni drwy amser gan fynnu ar yr un pryd ei bod yn amlwg wir nad yw esgobion o reidrwydd nac yn ddeithriad yn ddoeth ac yn ffyddlon.

- 6.7 Mae'r Eglwys Fethodistaidd, wrth ystyried y posibilrwydd o dderbyn arwydd yr hen olyniaeth esgobol, yn disgwyl cynnal deialog â'i chwaer Eglwysi i geisio hynny o eglurder ag y gellir parthed natur y rhodd hon a'r budd a all ddod ohoni.**

Wrth ystyried derbyn yr olyniaeth hanesyddol oddi mewn i Fethodistiaeth mewn amgylchiadau o'r math a nodir yng Nghannllaw 2, mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cydnabod y modd y gallai hynny ategu a chyfoethogi profiad presennol yr Eglwys Fethodistaidd o *episcopa* a chryfhau ymdeimlad Methodistiaeth o fod mewn cymuned yn yr un Eglwys gatholig ac apostolig.

- 6.8 Ni allai'r Eglwys Fethodistaidd dderbyn arwydd yr olyniaeth esgobol o fewn cyd-destun a fyddai'n golygu gwadu'r hyn a gred yr Eglwys Fethodistaidd iddi ei dderbyn oddi wrth Dduw.**

Un enghraifft amlwg a phwysig o'r hyn a olygir yn y Canllaw hwn yw gweinidogaeth merched. Ers ordeinio merched gyntaf i urdd presbyter yn yr Eglwys Fethodistaidd, bu pob swydd y mae gweinidogion gwrywaidd yn gymwys iddi yn agored hefyd i ferched. Yn ei thrafodaethau cychwynnol ar y cynllun i sefydlu Esgob Eciwmenaidd yng Nghymru, roedd y Gynhadledd yn bryderus iawn ynghylch y datganiad y byddai'n rhaid i'r esgob cyntaf o'r fath fod yn ddyn, a chymeradwyodd wneud gwaith pellach ar y cynllun ar y ddealltwriaeth y byddid yn gwneud pob ymdrech yn ystod y trafodaethau dilynol i sicrhau na fyddai'r fath gyfyngu ar unrhyw benodiad dilynol.

- 6.9 Byddai'r Eglwys Fethodistaidd, wrth dderbyn arwydd yr olyniaeth esgobol, yn mynnu y byddid yn arfer pob gweinidogaeth, gan gynnwys gweinidogaeth arolygiaeth, fel rhan o weinidogaeth holl bobl Dduw ac er gwasanaethu pobl Dduw yn hytrach ar wahân iddynt ac yn ben arnynt.**

Mewn trafodaethau cynharach mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi pwysleisio'r gwerth a roddai ar swyddogaeth fugeiliol esgobion, ar eu cyfrifoldeb am arwain mewn cenhadu ac ar eu swyddogaeth gynrychioliadol mewn materion cymunedol. Mynegwyd y farn y dylent adnabod eu pobl a bod yn adnabyddus yn eu plith ar lawer lefel ac y dylent weini awdurdod gyda thynerwch gan fod yn weision gwylaidd i Grist.

Fel y dangosodd yr arolwg ar y dulliau o arfer *episcopa* ac esgobyddiaeth, ni ddylai Methodistiaid ofni y gallai mabwysiadu esgobyddiaeth o reidrwydd olygu mabwysiadu patrwm hierarchaidd. Rhwir pwyslais cynyddol mewn eglwysi sydd â

threfn esgobol ar swyddogaethau bugeiliol, addysgol a chenhadol yr esgob. Fel y mynnir yn y ddogfen *Commitment to Mission and Unity*:

Mae'r swydd [sef swydd esgob] yn berthynol ei natur a rhaid ei harfer oddi mewn i'r gymuned y galwyd yr esgob i'w gwasanaethu a chyda'r gymuned honno ac ymhlith ei phobl. Ni ddylai baich gofynion biwrocraataidd y swydd fod mor drwm ag i rwystro esgobion rhag cydgerdded â'u pobl na gwanhau eu cymdeithas gynghoraidd â'u cydesgobion, offeiriaid a diaconiaid. Gweinidogaeth o wasanaeth yw sy'n gofyn agwedd fugeiliol a ffordd o fyw sy'n gydnaws â'r swydd.

## 7. Eglwys Bresbyteraidd Cymru

7.1 Mae *Llawlyfr Trefn a Rheolau* Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cynnwys y 'Datganiad ar Swydd a Gwaith Gweinidog' a ganlyn:

Preswylia'r Crist atgyfodedig yng nghymdeithas grediniol ei Eglwys, ei gorff Ef, ei gyflawnder Ef, gan roddi iddi'r fraint o gydweithio ag Ef yn ei weinidogaeth achubol yn y byd. Wrth ordeinio gweinidog fe'i neilltuir gan yr Eglwys i'w harwain yn y weinidogaeth amrywiol hon, gan ymddiried iddo/iddi'n arbennig bregethu'r Gair, gweinyddu a derbyn o'r Sacramentau, bugeilio'r aelodau a'u hyfforddi yn y Ffydd Gristnogol ac arwain yr Eglwys yn ei gwaith cenhadol a dyngarol yn y gymuned leol, y genedl a'r byd.

7.2 Mae'r 'Rheolau Dewis Gweinidogion ar Eglwysi' sy'n dilyn yn datgan: 'Mae holl drefniadau gweinidogaethol eglwys/gofalaeth i'w gwneud gyda chaniatâd a than arolygiaeth yr Henaduriaeth'.

7.3 Deil Eglwys Bresbyteraidd Cymru bod holl Weinidogion yr Eglwys yn meddu ar yr un statws a'u bod yn cael eu harolygu gan yr Eglwys mewn cyngor ar lefel Henaduriaeth, Cymdeithasfa a'r Gymanfa Gyffredinol.

7.4 Ar hyn o bryd etholir Llywydd am gyfnod o flwyddyn. Y Gymanfa Gyffredinol fydd yn ethol y Llywydd o restr o dri gweinidog neu flaenor a enwebir gan y Gymdeithasfa. Yn ogystal â Llywydd y Gymanfa Gyffredinol y mae am unrhyw un flwyddyn dri o Lywyddion y Gymdeithasfa, sef un i bob un o'r tair talaith, a Llywydd i bob un o'r pedair Henaduriaeth ar ddeg.

Dechreuodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ordeinio gweinidogion ym 1811 a pharheir i wneud hynny mewn cyfarfod o'r Gymdeithasfa.

7.5 Pwysleisir natur arolygiaeth fugeiliol yn y drefn ar gyfer Sefydlu Gweinidog, gyda Llywydd yr Henaduriaeth berthnasol yn llywyddu ac yn mynnu ateb cadarnhaol i nifer o gwestiynau.

7.6 Mae swydd blaenor hefyd yn cynnwys gradd o arolygiaeth fugeiliol. Cynnwys y *Llawlyfr Trefn a Rheolau* y datganiad a ganlyn 'Ar Swydd a Gwaith Blaenor':

Y mae blaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn wraig neu'n wraig a alwyd i wasanaethu'r eglwys leol trwy bleidlais a gynhaliwyd yn weddigar ac o dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Cymer blaenoriaid ynghyd â'r gweinidog gyfrifoldeb fel tîm am fywyd, addoliad a thystiolaeth y gynulleidfa leol. Yn ôl eu doniau y maent i ymweld â'r cleifion, i addysgu'r ifanc, i arwain a chefnogi'r rhai sy'n ceisio Crist, ac i hyfforddi a chalonogi credinwyr. Disgwylir hefyd iddynt fod â gofal am y Cyfundeb cyfan. Byddant hwy yn Ymddiriedolwyr Rheolaethol yn eu heglwys leol ac maent i weithio gyda'u cydflaenoriaid a'r gweinidogion i adeiladu corff Crist trwy holl lysoedd yr Eglwys.

- 7.7 Ordeinir blaenoriaid mewn cyfarfod agored o'r Henaduriaeth berthnasol gyda Llywydd yr Henaduriaeth honno a pha un bynnag o Lywyddion y Gymdeithasfa sy'n gyfrifol am y dalaith y perthyn yr Henaduriaeth iddi yn cydlywyddu'r cyfarfod.
- 7.8 Rhwir caniatâd i Henaduriaethau mewn ymgynghoriad â'r eglwysi i ystyried enwebu blaenoriaid i'w hyfforddi a'u trwyddedu i weinyddu'r sacramentau mewn eglwysi o fewn eu Henaduriaeth nad oes ganddynt fugail. Pan fo gan eglwys weinidog ni roir caniatâd i flaenor weinyddu'r sacramentau oni fydd y gweinidog yn cydsynio.
- 7.9 Trwyddedir blaenoriaid i weinyddu'r sacramentau am dair blynedd a gellir adnewyddu'r drwydded gyda chydysniad y blaenor a'r Henaduriaeth.

## 8. Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

- 8.1 Nid yw'r Eglwys Ddiwygiedig yn gwrthwynebu *episcopa* personol ond mae'n ochelgar ynglŷn â'r modd yr arferir hynny. Mae gan yr Eglwys eisoes esgobion mewn rhannau eraill o'r byd – mae'r Eglwys Ddiwygiedig yn Hwngari yn enghraifft dda o hynny.
- 8.2 Pleidleisiodd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig 90% o blaid penodi Esgob Eciwmenaid i Ddwyrain Caerdydd er mai dim ond dyn a allai ddal y swydd yn y lle cyntaf. Yn y dyfodol teimla'r Eglwys y bydd yn rhaid cymryd o ddifrif ei Pholisi Cyfle Cyfartal.
- 8.3 Mae Trefn Eglwysig yn y Traddodiad Diwygiedig yn fater o reswm ymarferol, yr hyn a alwodd John Calfin yn 'gyfleuster'. Mae'n hyblyg a gellir ei haddasu a'i newid yn unol ag arweiniad yr Ysbryd a gofynion cenhadol. Mae pragmatiaeth yn gwbl dderbyniol.
- 8.4 Nid oes unrhyw wahaniaeth absoliwt, hanfodol rhwng clerigion a lleygion. Nid yw ordeinio neb yn rhoi i'r unigolyn unrhyw radd, statws na grym arbennig. Yr hyn a wneir yw cydnabod ac awdurdodi galwedigaeth benodol. Mater o drefn yn hytrach nag unrhyw weithred gyfrin ydyw.
- 8.5 Etholir Llywydd o fewn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig gan Gynghorau'r Eglwys am gyfnod penodol – deuddeng mlynedd yw'r cyfnod hwyaf y gall Llywydd wasanaethu. Bydd y rhan fwyaf o Lywyddion yn dychwelyd ar ôl hynny i ddyletswyddau bugeiliol yn yr Eglwys leol (yn wahanol i esgob Anglicanaidd sy'n parhau'n esgob hyd yn oed ar ôl gadael yr esgobaeth adeg ymddeol neu oherwydd salwch).
- 8.6 Mae arolygiaeth fugeiliol yn nwylo Swyddogion Penodedig yn gweithio drwy Gynghorau'r Eglwys. Bydd gweinidog yr Eglwys leol yn cynnig gofal bugeiliol ar y cyd â'r blaenoriaid lleyg ordeiniedig. Bydd gan flaenoriaid fel arfer restrau o gydaelodau a gwrandawyr i ymweld yn rheolaidd â hwy yn eu cartrefi. Fel arfer byddant yn cymryd y dasg honno o ddifrif. Ordeinir blaenoriaid am oes ond nid oes raid iddynt wasanaethu am oes. Bydd blaenoriaid y Synod, a ddewisir i gynrychioli ardaloedd neu ranbarthau, yn cynnig gofal ehangach ac yn adrodd yn fanwl i Gyngor y Synod. Llywydd y Synod sy'n gofalu am y gweinidogion yn ei Synod ac yn rhoi cyngor a chymorth i deuluoedd gweinidogion.
- 8.7 Mae gan bob aelod eglwysig beth cyfrifoldeb mewn ystyr gyffredinol dros aelodau eraill o fewn Corff Crist. Mae arolygiaeth fugeiliol yn bwysig dros ben yn y traddodiad Diwygiedig.

- 8.8 Digwydd ordeinio fel arfer yng Ngofalaeth Gyntaf y gweinidog yn yr Eglwys leol gyda Llywydd y Synod yn llywyddu gan amlaf. Bydd y gwasanaeth fel arfer yn cynnwys darllen Atodlen D – datganiad ynghylch natur, ffydd a threfn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Gall y Gweinidog wneud datganiad personol ynghylch y modd y'i galwyd i'r swydd ac wedyn gofynnir iddo ymateb yn gadarnhaol i gyfres o gwestiynau. Bydd y Weithred Ordeinio'n dilyn ynghyd â Gweddï Ordeinio. Mae arddodi dwylo'n ddewisol. Os digwydd hynny, bydd llawer o bobl leyg ac ordeiniedig yn cymryd rhan. Bydd y Llywydd yn datgan bod y gweinidog wedi ei ordeinio a'i sefydlu'n briodol.

## 9. Sylwadau'r Gweithgor

- 9.1 Barnai'r Gweithgor y bydd yn rhaid i'r holl Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru ymdrin yn onest ag anghytundebau, amheuan a rhagfarnau'r gorffennol cyn y gellir camu ymlaen. Cydnabyddai mai'r hyn a geisiwn yw cyflawn gydgyfnewid gweinidogaeth; cydnabyddai hefyd y pwyntiau a ganlyn:
- 9.1.1 Mae'r Eglwys Anglicanaidd yn dysgu bod ordeinio gan esgob yn ofyniad hanfodol y cred Anglicaniaid iddynt ei dderbyn o ddyddiau cynharaf yr Eglwys. Cydnabu'r Comisiwn hynny ddwywaith o'r blaen – yn y ddogfen *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno* ym 1986 ac yn yr ymgais yn 2002 i benodi Esgob Eciwmenaidd yn Ne-ddwyrain Cymru. Roedd y Gweithgor hefyd o'r farn y bydd cyflawn gydgyfnewid gweinidogion yn bosibl rhwng yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru unwaith y bydd y pedair Eglwys Gyfamodol nad oes ganddynt drefn esgobol yn arwyddo eu bod yn fodlon cynnwys rhyw ffurf ar y drefn esgobol hanesyddol o fewn eu trefniadau llywodraethu. Roedd y Gweithgor wedi'i galonogi gan y ffaith na fu i'r un o'r Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru wrthod egwyddor *episcopate* personol.
- 9.1.2 Os gofynnir i'r enwadau anesgobol dderbyn esgobyddiaeth bydd yn rhaid ateb y cwestiwn: pam fod arnynt angen esgob? Bydd yn rhaid iddynt benderfynu drostynt eu hunain beth fydd cynnwys eu gweinidogaeth esgobol a sicrhau na fydd yn gwrthdaro i'r fath raddau â swyddogaethau traddodiadol esgob nes ei bod yn anodd ei chydabod fel rhan o'r hen olyniaeth esgobol.
- 9.1.3 Dywed yr Eglwys yng Nghymru amdani ei hun ei bod 'yn cael ei harwain yn esgobol ac yn cael ei llywodraethu'n synodaidd'. Er mai esgobion sy'n ei harwain, mae'r Eglwys yn parchu hen, hen draddodiad y drefn gynghoraidd ac yn ymhyfrydu yn hynny. Bydd esgobion yn ymgynghori nid yn unig â'u cydesgobion ond hefyd â'r clerigion a phobl leyg. Bydd cynadleddau'r esgobaethau a'r deoniaethau a Chorff Llywodraethol y Dalaith yn rhoi cyfle i ymgynghori a thrafod gyda'r esgobion, y clerigion a'r lleygion ynghyd. Weithiau bydd y clerigion a/neu'r lleygion yn ffrwyno'r esgobion. Er enghraifft, er bod holl esgobion yr Eglwys yng Nghymru o blaid ordeinio merched yn esgobion, nid ydynt wedi cysegru merch yn esgob gan fod y Corff Llywodraethol wedi gwrthod y syniad.

- 9.2 Dangosodd trafodaeth ynghylch ordeinio bod y pwyntiau canlynol yn debyg ym mhob un o'r pum traddodiad:
- 9.2.1 Bydd ordeinio'n dilyn cwrs hyfforddi diwinyddol ac ymarferol.
- 9.2.2 Gofynnir i ymgeiswyr am ordnasiwn ateb yn gadarnhaol nifer o gwestiynau ar athrawiaethau sylfaenol y ffydd Gristnogol, eu galwad bersonol i'r weinidogaeth a threfn yr Eglwys y maent i'w hordeinio ynddi. Gofynnir iddynt hefyd addunedu y byddant yn arfer eu gweinidogaeth yn ffyddlon er ysbrydoliaeth i eraill.
- 9.2.3 Yn rhai o'r traddodiadau nad ydynt yn esgobol ordeinir gweinidogion gyda chydsyniad y gynulleidfa gan swyddog etholedig (Llywydd, fel rheol) a all fod yn lleyg neu'n ordeiniedig. Yn yr Eglwys Fethodistaidd, ar gyfarwyddyd y Gynhadledd, cyflwynir ymgeiswyr bob amser i Lywydd (neu i un o gyn-Lywyddion) y Gynhadledd (sydd bob amser yn weinidog) a'u hordeinio, gyda chydsyniad y gynulleidfa, yn weinidogion neu'n ddiaciaoniaid. Mae tebygrwydd amlwg i ordeinio gan esgob, pan gyflwynir ymgeiswyr i'r esgob gan gynrychiolwyr yr esgobaeth ar ôl i'r gynulleidfa gydsynio.
- 9.3 Roedd y Gweithgor o'r farn y gallai patrwm Esgob-mewn-Cyngor fod yn sail i ystyriaeth bellach: hynny yw, patrwm lle na fyddai'r esgob yn gweithredu nac yn dysgu ar wahân i'w goleg o henuriaid a chynrychiolwyr lleyg etholedig. Mewn trefn felly, perthyn yr awdurdod i lywodraeth synodaidd sy'n cynnwys tri 'thŷ' y synod, sef yr esgob, y clerigion a'r lleygion. Mae'r *consensus fidelium* (barn gyffredin y ffyddloniaid) yn dibynnu ar fod y lleygion yn cytuno â'r clerigion a'r esgob. Bydd yr esgob yn llywyddu ond caiff pawb fynegi barn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr eglwys. Felly, y synod esgobaethol sy'n arfer *episcopus* yn y lle cyntaf. Etholir esgob yr esgobaeth gan glerigion a lleygion y synod ac mae'n dal ei swydd mewn cymdeithas â hwy ac yn gweithredu ar eu rhan. Mae'r patrwm yn bodloni'r amod a nodir yn 6.3 uchod ei bod yn 'bwysig bod y rhai sy'n arfer *episcopus* personol yn parhau'n atebol i'r Eglwys ehangach'.
- 9.4 Nodwyd bod y drefn uchod yn cynnig llawer o annibyniaeth i'r esgobaeth. Mae'r Eglwys yng Nghymru, er yn ffurfio talaith o fewn y Cymundeb Anglicanaidd, hefyd, mewn ystyr real iawn, yn gynulliad o chwe eglwys ar wahân ar sail ei chwe esgobaeth, pob un ohonynt yn gymundeb o dan arolygiaeth fugeiliol ei hesgob.
- 9.5 Mewn ymgais i ateb y cwestiynau a nodir yn 9.1.2 uchod, awgrymwyd y canlynol:
- 9.5.1 Gallai'r Eglwysi Cyfamodol nad oes ganddynt drefn esgobol gytuno i fabwysiadau trefn esgobol er mwyn hyrwyddo lles y Cyfamod yng Nghymru a dyfnhau'r gymdeithas o fewn y Cyfamod, gan gofio bob amser nad undod Cristnogol yw prif nod y Cyfamod eithr y genhadaeth Gristnogol.
- 9.5.2 Ystyrir bod gan esgobion gyfrifoldeb arbennig am arwain mewn cenhadu, dysgu'r ffydd, cyhoeddi'r efengyl apostolaidd mewn gair a sacrament, gofal bugeiliol a gwneud undod yr Eglwys yn weladwy. Yn y cyswllt hwnnw, cyfeiriwyd at Ddatganiad Lund (Datganiad Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd ynghylch Gweinidogaeth Esgobol, 2007; gweler Atodiad 2):

... mae gweinidogion esgobol yn arfer eu swyddogaeth o fod yn addysgwyr ffydd yr eglwys ac yn gynghorwyr i fywyd y cynulleidfaoedd yn gyffredinol. Wrth gyflawni ei swyddogaethau gelwir ar y gweinidog esgobol i fod ar gael i glerigion fel *pastor pastorum* (bugail y bugeiliaid). Wrth iddynt osod blaenoriaethau yn y meysydd hynny bydd gweinidogion esgobol yn amlygu dulliau o arwain sydd yn golygu rhannu cyfrifoldeb o ddifrif gan hyrwyddo ffyrdd cydweithredol o weinidogaethu... Gelwir gweinidogion esgobol i amlygu gwyleidd-dra a symlrwydd byw. Ni ddylai eu gweinidogaeth fod yn seiliedig ar dra-arglwyddiaethu ond yn hytrach ar wasanaethu...

Hoffai'r Gweithgor gymeradwyo Datganiad Lund i'r Eglwysi Cyfamodol anesgobol ei astudio a myfyrio arno'n arbennig gan fod y cymundeb a'i lluniodd yn rhannu â hwy, yn ddiwinyddol ac yn ddiwylliannol, beth o'r pryder hanesyddol ynghylch yr hen olyniaeth esgobol. Gallai'r datganiad felly fod yn arbennig o werthfawr wrth i eglwysi o'r fath ystyried sut y gallent gydbblethu esgobyddiaeth o fewn eu trefniadaeth heb gyfaddawdu eu gwreiddiau yn y Diwygiad Protestannaidd.

- 9.5.3 Pe byddai'r Eglwysi Cyfamodol hynny yn ethol esgob, byddai'r esgob yn ordeinio pob gweinidog ac felly'n dod yn ffynhonell corff o weinidogion a ordeiniwyd yn esgobol yn yr eglwysi hynny. Byddai cyflawn gydgyfnewid gweinidogaeth yn dilyn.

## 10. Argymhellion hirdymor

### 10.1 Y mae'r Gweithgor yn **argymell**:

- 10.1.1 Bod y Comisiwn yn gwahodd y pum Eglwys Gyfamodol i synio amdanynt eu hunain fel yr Eglwys yn Uno yng Nghymru.
- 10.1.2 Y bydd yr Eglwys honno yn gynulleidfaol, yn bresbyteraidd ac yn esgobol o safbwynt ei thraddodiad a dull ei harolygiaeth fugeiliol.
- 10.1.3 Y bydd gan yr Eglwys naw awdurdodaeth – y chwe esgobaeth Anglicanaidd bresennol ynghyd ag awdurdodaeth Fethodistaidd, awdurdodaeth Bresbyteraidd ac awdurdodaeth Ddiwygiedig Unedig/Fedyddiedig Gyfamodol, gyda gwahoddiad i bob un o'r awdurdodaethau hynny ethol ei hesgob ei hun.
- 10.1.4 Llunio disgrifiad o swyddogaeth esgob y bydd y pum Eglwys Gyfamodol yn cytuno arno (gweler Atodiad 1).
- 10.1.5 Os a phan fydd yr awdurdodaeth Fethodistaidd, yr awdurdodaeth Bresbyteraidd a'r awdurdodaeth Ddiwygiedig Unedig/Fedyddiedig Gyfamodol yn ethol esgob bob un, yr esgob hwnnw fydd yn ordeinio pawb sydd i ddod yn weinidogion yn yr awdurdodaeth honno.
- 10.1.6 Bydd yr esgob hwnnw yn esgob yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru ac yn rhannu cymdeithas gynghoraidd a chyflawn gydgyfnewid â holl esgobion eraill yr Eglwys honno.
- 10.1.7 Bydd esgobion y naw awdurdodaeth yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru yn ymgynghori â'i gilydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

## 10.2 Nodwyd rhai anawsterau a ddaeth yn amlwg yn syth:

- 10.2.1 Eglwys Gyfundebol yw Eglwys Fethodistaidd Prydain ac fe ordeinir holl weinidogion Methodistaidd Prydain ar hyn o bryd gan Lywydd Cynhadledd Fethodistaidd Prydain. Nid oes gan y Synodau Methodistaidd yng Nghymru awdurdod i gydsynio i gynllun o'r fath nac i sefydlu esgob Methodistaidd yng Nghymru.
- 10.2.2 Fel grŵp o fewn Cymdeithasfa Bedyddwyr De Cymru byddai angen i'r Eglwysi Bedyddiedig Cyfamodol drafod ymhlith ei gilydd ac o fewn eu traddodiad eu hunain sut orau y dymument ymateb i'r syniad o ethol eu hesgob eu hunain.
- 10.2.3 Efallai y byddai'r awdurdodaethau Methodistaidd, Presbyteraidd a Diwygiedig Unedig/Bedyddiedig Cyfamodol arfaethedig yn dymuno ethol merch yn esgob. Byddai hynny'n amharu ar y cymundeb â'r chwe esgobaeth Anglicanaidd, lle nad yw hynny'n bosibl ar hyn o bryd.
- 10.2.4 Mewn ymateb i 10.2.1, roedd y Gweithgor yn ymwybodol y gallai'r sefyllfa ar draws y Deyrnas Gyfunol newid yn dilyn trafodaethau Cydgomisiwn Gweithredu'r Cyfamod Anglicanaidd-Methodistaidd. Pe na ddigwyddai hynny, a bod Methodistiaid Cymru'n dymuno camu ymlaen a'u bod yn derbyn caniatâd y Gynhadledd i wneud hynny, gellid dirprwyo, drwy awdurdod Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd, yr awdurdod i ordeinio yn Synod Wales a Synod Cymru i esgob Synod Wales a Synod Cymru.
- 10.2.5 Mewn ymateb i 10.2.2, awgrym y Gweithgor oedd y gellid gwahodd y Bedyddwyr Cyfamodol i rannu esgob â'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Bydd y penderfyniad terfynol, fodd bynnag, yn fater i'r Bedyddwyr Cyfamodol eu hunain.
- 10.2.6 Mewn ymateb i 10.2.3, barn y Gweithgor oedd ei bod yn annhebygol y bydd safbwynt presennol yr Eglwys yng Nghymru ar esgobion benywaidd yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Yn y cyfamser, byddai rhwydd hynt i'r awdurdodaethau Methodistaidd, Presbyteraidd, a Diwygiedig Unedig / Bedyddwyr Cyfamodol ddewis merch yn esgob pe dymument, ond ar y ddealltwriaeth na fyddai'r chwe esgobaeth Anglicanaidd yn cydnabod unrhyw glerigion a ordeiniwyd ganddi nes byddai'r Eglwys yng Nghymru hithau wedi caniatâu ordeinio merched yn esgobion.
- 10.3 Nododd y Gweithgor y bydd angen cysegru unrhyw esgob a etholid gan yr awdurdodaethau Methodistaidd, Presbyteraidd a Diwygiedig Unedig/ Bedyddiedig Cyfamodol arfaethedig i'r hen olyniaeth esgobol, hynny yw, y bydd yn rhaid ei ordeinio drwy arddodi dwylo gan o leiaf dri esgob sy'n rhan o'r olyniaeth honno.
- 10.3.1 Nodwyd, er y byddai'n ddymunol i esgobion Anglicanaidd Cymru gymryd rhan mewn cysegriad o'r fath, er mwyn dangos bod y cysegru at wasanaethu yng nghyd-destun Cymru, gallai fod yn well gan yr awdurdodaethau newydd arfaethedig i esgob o'u traddodiad eu hunain lywyddu yn y cysegriad er mwyn pwysleisio nad i'r Eglwys Anglicanaidd y byddid yn cysegru'r esgob newydd.
- 10.3.2 Yn yr achos hwnnw byddai gofyn bod yn ofalus iawn bod yr esgob a fyddai'n llywyddu yntau'n rhan o'r hen olyniaeth esgobol. Er enghraifft, byddai'n briodol iawn i esgob o Eglwys Unedig Gogledd India gysegru esgob o Eglwys Bresbyteraidd Cymru oherwydd y cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddwy Eglwys.



## 11. Argymhellion at y Tymor Canolig

- 11.1 Er y byddai'r cynllun a amlinellir uchod yn sicrhau ffynhonell o weinidogion a ordeiniwyd gan esgob ar gyfer y dyfodol byddai'n gadael y gweinidogion hynny na chawsant eu hordeinio gan esgob mewn sefyllfa annelwig. Mae angen rhyw drefn i ganiatáu cydgyfnewid cyflawn a fydd yn cynnwys y gweinidogion hynny'n ogystal.
- 11.2 Y patrwm ar gyfer hynny fyddai Eglwys De India, lle daeth eglwysi esgobol ac anesgobol ynghyd ar sail esgobol. Ni chafodd clerigion nas ordeiniwyd gan esgob eu hailordeinio, ond penderfynwyd mai esgob a fyddai, yn y dyfodol, yn ordeinio pob ymgeisydd am y weinidogaeth, fel y deuai Eglwys De India yn y pen draw yn eglwys esgobol. Yn *The Historic Episcopate* (1954), defnyddia Hugh Montefiore a Kenneth M. Carey y term *plene esse* ('bodolaeth gyflawn') yr Eglwys wrth ddadlau mai rhywbeth a berthyn i gyflawnder yr Eglwys yw'r drefn esgobol, nid rhywbeth a berthyn i'w hanfod. O'r herwydd, gallai Eglwys Loegr sefydlu cymundeb gyflawn ag Eglwys De India, gan dderbyn y byddai'r hen olyniaeth esgobol, o reidrwydd, yn rhan o'i dyfodol.
- 11.3 Barnai'r Gweithgor y gallai'r holl weinidogion o fewn yr Eglwysi Cyfamodol ystyried gweinidogaeth gyfamodol yn weinidogaeth ehangach. Byddai cyfranogi yn y weinidogaeth ehangach honno'n gofyn gweithred o gymodi.
- 11.4 Byddai'n golygu y byddai'r holl weinidogion yn cytuno i dderbyn arddodiad dwylo gan o leiaf un esgob Anglicanaidd ac o leiaf un esgob yn cynrychioli'r traddodiadau eraill oddi mewn i'r Eglwys yn Uno yng Nghymru. Ystyrid hyn nid yn ordeinio esgobol ond yn gam ymlaen i weinidogaeth gyfamodol lawn.
- 11.5 Nododd y Gweithgor bod ordeinio yn y drefn Anglicanaidd yn digwydd mewn dau gam: (i) ordeinio'n ddiakon a (ii) ordeinio'n offeiriad (presbyter). Mae dod yn esgob yn golygu ordeinio am y trydydd tro. Nid yw'r ail na'r trydydd cam yn golygu gwadu'r ordeinio blaenorol ond mae'n hytrach yn agor y drws i weinidogaeth ehangach.

## 12. Argymhellion Tymor Byr

- 12.1 Nododd y Gweithgor yr arfer da o benodi canoniaid o enwadau eraill yn eglwysi cadeiriol Eglwys Loegr ac **y mae'n argymell** bod esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn gwneud yr un modd.
- 12.2 Nododd y Gweithgor y gwaith a wneir ar hyn o bryd o fewn Cymundeb Eglwysi Porvoo ar swyddogaeth diaconiaid ac **y mae'n argymell** bod Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn ystyried a all pum aelod y Comisiwn ddod i gytundeb ar y mater hwn.
- 12.3 Mae'r Gweithgor yn **argymell** bod Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol parthed arolygiaeth fugeiliol:
- 12.3.1 annog ond nid gorfodi gweinidogion i fynychu llys enwad nad ydynt yn perthyn iddo; a
- 12.3.2 bod eglwysi sy'n perthyn i Bartneriaeth Eciwmenaidd Leol yn dirprwyo gweinyddu'r Bartneriaeth i Gorff Noddi a ddewisiwyd o blith aelodau Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol neu Cytûn.

## ATODIAD 1

### Swyddogaeth Esgob yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru

Gallai cytundeb ynghylch swyddogaeth esgob yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru gynnwys y canlynol:

Dylai'r esgob :

- fod â doniau dirnadaeth, dysgu, doethineb a gofal bugeiliol;
- fod â'r gallu i wrando'n dda a datrys gwrthdaro'n effeithiol;
- fod yn ddiwinydd ac yn un sy'n astudio'r Ysgrythur, a'i fywyd wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn gweddi;
- fod â'r gallu i fynegi athrawiaethau canolog y Ffydd Gristnogol;
- amlygu'r ffydd honno drwy fyw'n unol â'r Gorchymyn Mawr a'r Comisiwn Mawr;
- fod yn gyfarwydd ag arferion yr holl draddodiadau sydd o fewn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru.

1. Etholir yr esgob yn unol â phroses a ddynodwyd gan ei awdurdodaeth gyda chytundeb yr holl Eglwysi sy'n aelodau o'r Eglwys yn Uno yng Nghymru.
2. Yr esgob fydd yn gyfrifol am ofalu am yr awdurdodaeth ac am ei hundod.
3. Bydd yr esgob yn gweithredu'n unol â Chyfansoddiad yr Eglwys yn Uno yng Nghymru.
4. Ar y cyd â'r rhai sy'n gweinidogaethu yn yr awdurdodaeth ac yn unol ag arferion y traddodiad perthnasol, bydd yr esgob yn goruchwyllo:
  - pregethu a dysgu'r efengyl
  - gweinyddu'r sacramentau
  - rheoli'r awdurdodaeth o ddydd i ddydd.
5. Bydd yr esgob yn gwasanaethu fel arweinydd ysbrydol yr awdurdodaeth.
6. Bydd yr esgob yn gofalu'n arbennig am y rhai sy'n gweinidogaethu yn yr awdurdodaeth, yn gweddïo drostynt ac yn gwneud popeth a all i sicrhau eu lles.
7. Bydd yr esgob yn ymgynghori'n rheolaidd (i) â Chyngor o glerigion yr awdurdodaeth a (ii) ag esgobion eraill yng Nghymru a thu hwnt.
8. Bydd yr esgob yn gwasanaethu fel Llywydd, ond nid o reidrwydd fel Cadeirydd, prif gynhadledd yr awdurdodaeth.
9. Bydd yr esgob yn ordeinio presbyteriaid a diaconiaid ac yn awdurdodi gweinidogion lleyg.
10. Bydd yr esgob yn gweinyddu confyrmasiwn ond, yn unol ag arferion y traddodiad dan sylw, gall ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i eraill.

## ATODIAD 2

## Y Weinidogaeth Esgobol o fewn Apostoligrwydd yr Eglwys

**Datganiad Lund gan Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd  
Cymundeb o Eglwysi, Lund, Sweden  
26 Mawrth 2007**

**I. Rhagarweiniad**

1. Ers deugain mlynedd, bu Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd yn bartner mewn trafodaethau eciwmenaidd rhyngwladol. Yn y trafodaethau hynny, ceisiodd y cyfranwyr Lwtheraidd ddwyn tystiolaeth i ddysgeidiaeth yr efengyl yn unol â'r traddodiad Lwtheraidd gan ddysgu'r un pryd oddi wrth gynrychiolwyr y traddodiadau eraill lle y cafodd yr efengyl ei dysgu mewn cyd-destunau a ffurfiau eraill. Bu'r weinidogaeth esgobol yn un o'r pynciau a drafodwyd mewn nifer o'r trafodaethau hynny wrth i'r eglwysi dan sylw ystyried posibiliadau ar gyfer hyrwyddo undod gweladwy'r eglwys. Bu pwyslais arbennig ar ystyried gweinidogaeth esgobol mewn perthynas ag apostoligrwydd yr eglwys. Cafwyd cytundebau pwysig gyda rhai ohonynt yn arwain at ffurfiau cadarn o gymundeb.<sup>i</sup>
2. Er bod yr eglwysi sy'n aelodau o'r Ffederasiwn wedi prosesu a derbyn y cytundebau eciwmenaidd a wnaed mewn ffyrdd gwahanol, daeth prosesau trwyadl y gwahanol drafodaethau diwinyddol yn adnoddau hefyd ar gyfer bywyd cyffredin y Ffederasiwn fel Cymundeb o Eglwysi. Ymhlith yr eglwysi Lwtheraidd ceir sail gyffesiadol gyffredin ac ar yr un pryd amrywiaeth o draddodiadau parthed y weinidogaeth esgobol. Roedd y sefyllfa honno'n mynnu bod angen sicrhau rhagor o eglurder er mwyn y Cymundeb Lwtheraidd ei hun.<sup>ii</sup> Lluniwyd y datganiad hwn, y cytunwyd arno drwy astudio a thrafod gofalus, fel mynegiant o'r hyn sy'n gyffredin rhwng yr eglwysi Lwtheraidd parthed dysgeidiaeth ac arferiad ym maes episcope.
3. Lluniwyd y datganiad yng nghyd-destun y mudiad eciwmenaidd, y bu ac yr erys y Ffederasiwn yn gyfrannwr ymroddedig iddo. Fe'i seilir i raddau helaeth ar adroddiadau a ddeilliodd o drafodaethau dwyochrog ac amlochrog, gan ddefnyddio llawer o iaith yr adroddiadau hynny. Canlyniad ydyw i broses astudio o fewn y Ffederasiwn a gychwynnodd yn y flwyddyn 2000. Cynhaliwyd pum cyfarfod rhanbarthol. Yn 2002 cyflwynodd aelodau Lwtheraidd y trafodaethau rhyngwladol y ddogfen 'Y Weinidogaeth Esgobol o fewn Apostoligrwydd yr Eglwys', a anfonwyd yn 2003 at yr holl eglwysi sy'n aelodau o'r Ffederasiwn i'w hastudio ac i ymateb iddi. Mae'r datganiad newydd hwn, a luniwyd ar gais Cyngor y Ffederasiwn yn ei gyfarfod ym Methlehem yn 2005, yn adeiladu ar Ddatganiad 2002 a hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau ac awgrymiadau a gyfrannodd yr eglwysi sy'n aelodau o'r Ffederasiwn. Fe'i trafodwyd yn helaeth, ei olygu ac yna ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod yn Lund, Sweden, fis Mawrth 2007 – cyfarfod a oedd hefyd yn cynnwys Ymgynghoriad Arweinwyr Eglwysig y Ffederasiwn ynghyd â dathlu trigeinfed pen-blwydd y Ffederasiwn. Gweler yr Atodiad isod am wybodaeth fanylach ynghylch y broses a arweiniodd at lunio'r datganiad hwn.

4. Sylwadau ynghylch terminoleg: Seilir y termau esgobyddiaeth ac episcope ar y ferf Roeg episcopain, a all olygu edrych ar, dirnad a goruchwyllo. Mewn eglwysi Lwtheraidd arferir episcope (arolygiaeth) yn yr ystyr eang gan bobl ordeiniedig, synodau a sefydliadau cynghoraidd a ddynodwyd yn benodol i wneud hynny. Bydd y sefydliadau cynghoraidd hynny gan amlaf yn cynnwys aelodau ordeiniedig ac aelodau heb eu hordeinio. Fel rhan o'r episcope hwnnw, bydd eglwysi Lwtheraidd yn dynodi tasgau goruchwyllo penodol i weinidogaeth ranbarthol esgobion a swyddogion tebyg gyda theitlau eraill (megis llywydd eglwys, ephorus, bugail synodaidd ac ati), sy'n arfer mewn modd personol, cynghoraidd a chymunol, weinidogaeth ordeiniedig uwch-gynulleidfaol er mwyn sicrhau dirnadaeth ysbrydol ac arweiniad. Yn y testun hwn, defnyddir y termau 'gweinidogaeth esgobol' a 'gweinidogaeth episcope' i ddynodi'r weinidogaeth ordeiniedig honno o arolygiaeth fugeiliol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, fe arferir gweinidogaeth episcope yn yr ystyr eang drwy ffurfiau cydweithredol a synodaidd o arolygu, sy'n cynnwys unigolion lleyg ac ordeiniedig, yn unol â rheolau a rheoliadau sefydlog.

## II. Seiliau Beiblaidd a Hanesyddol

### Y Testament Newydd<sup>iii</sup>

5. Mae ysgrifeniadau canonaidd y Testament Newydd yn adlewyrchu cyfnod yn hanes yr eglwys pan ddatblygodd gwahanol batrymau eglwysig a oedd yn cydfodoli ac yn rhyngweithio â'i gilydd. Nid yw rhai rhannau o'r Testament Newydd yn amlygu fawr o ddi-ddordeb mewn strwythurau eglwysig a cheir gwahaniaethau rhwng y rhannau sydd yn ymdrin â'r pwnc. Barn sy'n gyffredin yn eciwmenaidd heddiw yw nad yw'r Testament Newydd yn disgrifio un patrwm gweinidogaethol y gellir ei ddefnyddio fel canllaw ar gyfer strwythurau diweddarach yn yr eglwys. Yn hytrach, fe geir yn y Testament Newydd amrywiaeth o ffurfiau sy'n adlewyrchu'r hyn a ddatblygodd mewn gwahanol leoedd ar wahanol adegau.
6. Y mae, fodd bynnag, lawer o arwyddion yn y Testament Newydd o ddatblygiad swyddi a theitlau eglwysig, hyd yn oed os nad oeddent eto wedi'u diffinio'n fanwl nac wedi'u derbyn gan bawb. Ni fu'r cymunedau Cristnogol cynnar erioed heb bobl â'r cyfrifoldeb i arwain. Gall y patrymau gweinidogaethol amrywiol a welir yn y Testament Newydd gynnig sail ar gyfer amrywiaeth o strwythurau parthed swyddi gweinidogaethol. Mae'r her i ystyried strwythurau gweinidogaethol yn barhaus yng ngoleuni'r Ysgrythur yn wynebu'r eglwys ym mhob oes.
7. Yng Ngroeg y Beibl, defnyddir *episcopos* i gyfeirio at ymweliad gan Dduw (cf Luc 19.4; 1 Pedr 2.25). Yn yr achosion prin pan fo'r goddrych yn ddynol yn hytrach na dwyfol, gall y term hefyd gyfeirio at dasg eglwysig. Yn Actau 1.16-20, dywedir bod ethol apostol newydd yn lle Jwdas yn gyflawniad o Salm 109.8 (LXX): "A chymered arall ei oruchwyliaeth" (*ten episcopos autou*). Yn 1 Timotheus 3.1, cyfeiria *episcopos* at swydd benodol y gellir ei cheisio. Digwydd y term *episcopos* bum gwaith yn y Testament Newydd. Mae 1 Pedr 2.25 yn disgrifio Crist fel bugail ac esgob ein heneidiau. Cyfeiria Philipiaid 1.1 at nifer o *episcopoi* yn Philipi — mae'r llythyr yn cyfarch *episcopoi* a *diaconoi* (ond nid *presbyteroi*). Defnyddia Actau 20.28 a Titus 1.5-9 *presbyteros* ac *episcopos* yn gyfystyr â'i gilydd.

8. I raddau mwy na rhannau eraill o'r Testament Newydd mae'r Llythyrau Bugeiliol yn cysylltu trosglwyddo dysgeidiaeth yn ffyddlon â phenodi i swyddi eglwysig mewn modd priodol. Fodd bynnag, mae'r darlun ymhell o fod yn eglur nac yn gyflawn. Cwyd y llythyrau gwestiynau gwahanol i ni heddiw ynghylch union nodweddion y strwythur eglwysig y maent yn ei argymhell ac i raddau'n ei adlewyrchu. Ond maent yn tystio i'r ffaith bod y gweithgaredd carismataidd yn yr eglwys yn y broses o esblygu i fod yn weinidogaeth strwythuredig yn gwisgo mantell broffwydol.
9. Mae I Timotheus a Titus, a gyfansoddwyd o dan enw Paul ac sy'n amlygu awdurdod yr apostol, yn ailgymhwyso'r hyn a dybient oedd dysgeidiaeth Paul ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Maent am warchod yr etifeddiaeth apostolaidd (sef dysgeidiaeth Paul) mewn sefyllfa lle'r ymddengys bod byggythiad iddi ac ymosod arni gan ddyfalu trofaus ac ymddygiad tanseiliol. Mynegir pryder cynyddol ynghylch dulliau trosglwyddo'r ffydd ac ynghylch ffyddlondeb bywyd a dysgeidiaeth deiliaid swyddi, gan yr ystyrir cynnal dysgeidiaeth yr apostolion (ac yn enwedig dysgeidiaeth Paul) yn brawf o ffyddlondeb.
10. Mae tystiolaeth yn y Llythyrau Bugeiliol o ddefod ordeinio drwy arddodi dwylo. Yn 2 Timotheus 1.6 Paul yw'r un sy'n arddodi dwylo tra mae 1 Timotheus 4.14 yn cymryd yn ganiataol y bydd pob aelod o gyngor o henuriaid yn arddodi dwylo. Yn ôl 1 Timotheus 4.14 cynhwysir tair elfen: trosglwyddo dawn (charisma), proffwydoliaeth ac arddodi dwylo. Nid yw'n eglur sut mae'r elfennau hyn yn cydblethu o fewn fframwaith un digwyddiad defodol. Ond nid oes amheuaeth bod yr arddodi dwylo yn golygu sefydlu unigolyn mewn sefyllfa arweiniol o dan nawdd yr Ysbryd. Dim ond mewn perthynas ag ordeinio y digwydd y cysyniad o ddawn ysbrydol yn y Llythyrau Bugeiliol. Rhodd rymusol yr Ysbryd yw dawn gweinidogaeth. Cyfeirir at y ddefod yng nghyd-destun annog Timotheus i gofio ei ddyletswyddau. Felly ymddengys mai sail awdurdod gwirioneddol ac effeithiol y gweinidog o hyd yw gwirionedd yr athrawiaeth y'i gelwir i'w amddiffyn ac ar hynny y dibynna'r awdurdod hwnnw.
11. Yn Llyfr yr Actau hefyd cymerir yn ganiataol bod cyswllt rhwng arddodi dwylo a dawn yr Ysbryd. Fodd bynnag, gweithred ydyw sy'n gysylltiedig â bedydd neu'n dilyn bedydd. Pan ddewisir y Saith ar gyfer gweinidogaeth gwasanaeth a'u sefydlu yn Actau 6 un o'r gofynion yw eu bod eisoes yn "llawn o'r Ysbryd". Nid yw'r arddodi dwylo sy'n dilyn eu hethol yn cyflwyno dawn benodol ond yn hytrach gweithred ydyw sy'n cadarnhau eu bod wedi'u dewis ac sy'n eu hawdurdodi i gyflawni tasg arbennig. Serch hynny, mae diben defod arddodi dwylo yn Actau 6.6 ac 13.3 eisoes yn dod yn agos at syniadaeth y Llythyrau Bugeiliol o'r weithred fel arwydd gweddigar o ethol a sefydlu ar gyfer tasg neu swydd arbennig.

### *Yr Eglwys Fore*

12. Yn hanes yr Eglwys Fore fe welir tri phrif ddarlun neu batrwm o swydd esgob yn y cyfnod cyn Cyngor Nicea yng ngweithiau Ignatiws, Irenaews a Chyprianws. Mae Ignatiws o Antioch (c.35 – c.107) yn synio am yr esgob yn bennaf fel yr un sy'n llywyddu yn yr ewcharist. Yn ei olwg ef, natur ewcharistaidd yn bennaf sydd i'r eglwys: mae cysylltiad organig rhwng Corff Crist o'i ddeall fel cymuned a Chorff Crist o'i ddehongli fel sacrament. Mae thema undod a'r berthynas rhyngddibynnol rhwng un esgob, un corff ewcharistaidd ac un eglwys yn gyffredin yn ei ysgrifau. Dylid cofio yn y cyswllt hwn bod Ignatiws yn ysgrifennu ar adeg pryd y byddai fel arfer un esgob ac un cynulliad ewcharistaidd mewn dinas.

13. Roedd Irenaews o Lyon (c.130 – c.200) yn adleisio dysgeidiaeth ewcharistaidd Ignatiws ond rhoddai fwy o bwys nag Ignatiws ar swyddogaeth yr esgob fel yr un sy'n dysgu'r ffydd. Y cyd-destun yw'r gwrthdaro â gnosticiaeth. I Irenaews, yr esgob uwchlaw popeth yw'r un sy'n gwarchod parhad y ddysgeidiaeth apostolaidd mewn olyniaeth i'r apostolion. Wrth i'r esgob gyhoeddi'r efengyl yn ffyddlon ym mhob eglwys leol y byddir yn gwarchod undod yr eglwys a pharhad y traddodiad apostolaidd.
14. Yng ngwaith Cyprianws o Garthag (bu farw 258) ceir pwyslais eglur ar weinidogaeth yr esgob fel cwlwm undod rhwng yr eglwysi lleol o fewn yr eglwys gyffredinol. Yma daw'r agwedd gynghoraidd ar swyddogaeth yr esgob i'r brig. Gwêl Cyprianws yr esgobion yn perthyn i rwydwaith fyd-eang. Byddant yn cyfarfod mewn cynghorau ac yn dod i gytundeb o dan arweiniad yr Ysbryd ac wrth wneud hynny maent yn gyfrifol ar y cyd am warchod dysgeidiaeth ac undod yr eglwysi.
15. Arhosodd y tri safbwynt hynny o'r Eglwys Fore, a ystyriai fod yr esgobion yn cynrychioli a) rhwymau undod rhwng yr eglwysi lleol drwy gynnal cymundeb ewcharistaidd, b) parhad yn y ddysgeidiaeth apostolaidd ac c) arolygiaeth gydweithredol ar yr eglwysi, yn bwysig drwy'r Canol Oesoedd yng nghanol llawer o gymhlethdodau hanesyddol ac roeddent hefyd yn bwysig i'r Diwygyr.
16. O gychwyn y bedwaredd ganrif, daeth yr episcopos i arolygu nid un gynulleidfa ewcharistaidd yn unig ond yn hytrach grŵp o gynulleidfaoedd o dan arweiniad presbyteriaid (er y byddai'r ardal o dan ei arolygiaeth yn aml yn fach o gymharu â'r sefyllfa fodern). Daethpwyd wedyn i uniaethu'r 'eglwys leol' â'r gymuned ehangach o gynulleidfaoedd o dan arweiniad yr episcopos ac nid â'r gynulleidfa ewcharistaidd unigol.
17. Dengys hanes yr Eglwys Fore yr angen am barhad personol parthed y cyfrifoldeb am dystiolaeth, sacramentau a disgyblaeth yr eglwys. Yn y ffordd honno, gwasanaethai'r esgobion undod yr eglwys. Ar yr un pryd, nid oedd eu gweinidogaeth, ac nid yw heddiw, yn gwarantu parhad yr eglwys mewn undod a gwirionedd.

#### *Y Diwygiad Protestannaidd*

18. Yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, datganodd Cristnogion efengylaidd yng Nghyffes Awgsbwrg fod Duw, er mwyn ysgogi a chynnal ffydd, wedi sefydlu'r weinidogaeth i gyhoeddi gair Duw a gweinyddu'r sacramentau (CA 5). Ni ddylai neb arfer swydd gweinidog oni bai bod yr eglwys wedi ei alw mewn modd priodol (CA 14 a 28). Ar Dduw y dibynna'r awdurdod i weinidogaethu yn y pen draw, gan mai ef a sefydlodd y swyddogaeth honno fel y gallai'r eglwys gyfan dderbyn gair Crist.
19. Credai Martin Luther fod yr holl Gristnogion yn rhannu offeiriadaeth ysbrydol gyffredin yng Nghrist, yr Archoffeiriad. Ar sail 1 Pedr a Datguddiad 1, mae pob Cristion yn offeiriad (*hieros*) drwy ffydd yn unig yn rhinwedd yr aileni a ddaw drwy fedydd ac yn byw yn unol â hynny mewn tystiolaeth, gweddi a gwasanaeth. Gwna gras ac iachawdwriaeth Duw yr holl Gristnogion yn gyfartal ger ei fron ac ni ellir eu gwahanu o safbwynt statws na dosbarth. Mae'r weinidogaeth gyhoeddus, sydd wedi'i gwreiddio yng Ngair Duw ac sy'n dwyn ei hawdurdod o'r Gair hwnnw, yn gwasanaethu holl bobl Dduw.

20. Drwy ordeinio, gelwir bugail i bregethu, i fedyddio ac i weinyddu'r ewcharist yn unol â gorchmynion ac addewidion Crist. Yn adran ganolog y ddefod ordeinio byddir yn gweddïo am ddawn yr Ysbryd Glân, gan bwysleisio dibyniaeth y bugail ar gymorth Duw'n barhaus ar gyfer pob tasg weinidogaethol. Gan ddibynnu ar ordinhad Crist a chan ymddiried yn ei addewidion bydd bugail yn llefaru ac yn gweithredu yn enw Crist. Bydd y doniau dwyfol yn ddilys er gwaethaf annheilyngdod y gweinidog (cf. CA 8). Fel y dywedir yn yr Amddiffyniad i'r Confessio Augustana: "Pan fydd [y gweinidogion] yn cynnig Gair Crist neu'r sacramentau, byddant yn gwneud hynny ar ran ac yn lle Crist. Dysga geiriau Crist hynny i ni fel na fydd annheilyngdod gweinidogion yn ein tramgwyddo." <sup>iv</sup>
21. Yn ôl arfer y Diwygiad Protestannaidd mae gweddi ac arddodi dwylo'n ddwy elfen yn y ddefod ordeinio. Duw yr Ysbryd Glân sy'n ordeinio ac yn hawlio'r person i'w wasanaeth yng ngweinidogaeth y gair a'r sacrament. Gan ymddiried bod Duw wedi gwrando'r gweddïau hynny, byddir fel arfer yn comisiynu'r gweinidog gyda geiriau 1 Pedr 5.1b-4. Crynhoir diwinyddiaeth y Diwygiad Protestannaidd ynghylch y weinidogaeth yn effeithiol yn y frawddeg ganlynol o drefn ordeinio Wittenberg: "Mae gweinidogaeth yr eglwys yn hynod bwysig ac angenrheidiol ar gyfer yr holl eglwysi ac fe'i rhoddir a'i diogelu gan Dduw yn unig." <sup>v</sup>
22. Ym marn y diwygwyr, un swyddogaeth yw gweinidogaeth cyhoeddi'r efengyl mewn gair a sacrament. Cysyllta Luther yr un swyddogaeth honno'n sylfaenol â'r gynulleidfa leol sy'n ymgynnull mewn un man i addoli Duw. Yn hynny o beth, mae safbwynt Luther yn agos iawn at eiddo Tadau'r Eglwys, a ganolbwyntia'i'n bennaf ar y gymuned ewcharistaidd wrth fyfyrion ynghylch yr eglwys. Mewn addoliad cynulleidfaol, yn ôl y Tadau a'r diwygwyr Lwtheraidd fel ei gilydd, bydd yr eglwys gyffredinol yn bresennol. Er mai yn lleol y gweinyddir y gair a'r sacramentau bob amser, maent ar yr un pryd yn arwyddion o'r un eglwys gyffredinol: "Yn gyffelyb, arwyddant y bydd un eglwys lân yn parhau hyd byth. Yr eglwys yw cynulleidfa'r saint lle dysgir yr efengyl yn ei phurdeb a lle gweinyddir y sacramentau yn y modd priodol." (CA7)
23. Gwelai'r diwygwyr werth mewn gweinidogaeth esgobol gyda'r dasg o ordeinio ac arolygu, a gwnaethant ymdrech lew i gadw'r drefn esgobol draddodiadol ar yr amod bod yr esgobion yn caniatáu pregethu'r efengyl (CA 28, Amddiffyniad 14) <sup>vi</sup>. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, roedd yr esgobion yn yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd gan fwyaf yn amharod i ordeinio'r rhai a goleddai syniadau'r Diwygiad Protestannaidd. Mewn achosion felly, dysgai'r diwygwyr y gallai bugeiliaid lywyddu'n ddilys mewn ordeinio. Gallai rhai diwygwyr ragweld sefyllfaoedd argyfyngus, pan na fyddai esgobion na bugeiliaid ar gael am flynyddoedd ar y tro, lle gallai'r cynulleidfaoedd eu hunain ordeinio bugeiliaid drwy weddi ac arddodi dwylo.
24. Roedd ffactorau hanesyddol eraill yn dylanwadu ar agwedd y Diwygiad Lwtheraidd tuag at y weinidogaeth esgobol. Roedd esgobion yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd ar yr un pryd yn dywysogion seciwlar ac felly roedd iddynt safleoedd amlwg mewn sefydliadau cyhoeddus a gwleidyddol. Byddent yn aml yn defnyddio eu grym seciwlar mewn materion eglwysig a'u grym eglwysig mewn materion seciwlar mewn ffyrdd amheus a byddai'n hawdd iddynt esgeuluso'u dyletswydd i gynnis arweiniad ysbrydol priodol. Roedd y Diwygwyr yn llym eu beirniadaeth ar sefyllfa o'r fath a phwysleisient mai prif ddyletswydd esgobion oedd sicrhau bod pobl yn dysgu ynghylch yr efengyl a chariad Crist (CA 28).

25. Fel y mae ymchwil hanesyddol wedi'i ddangos, nid oedd yr "olyniaeth apostolaidd" yn yr ystyr o ddilyniant o gysegrïadau esgobol a ystyrir yn anhepgor ar gyfer y weinidogaeth esgobol yn egwyddor y dadleuwyd drosti yn y Canol Oesoedd ac nid oedd yn fater dadlau yn y Diwygiad Protestannaidd hyd at y 1540au. Fodd bynnag, siaradai Luther yn agored ynghylch yr angen am ddilyniant o weinidogion yn yr eglwys: "Nawr os nad yw'r apostolion, yr efengylwyr a'r proffwydi'n fyw bellach, rhaid bod eraill wedi cymryd eu lle a bydd eraill yn cymryd eu lle hwythau hyd ddiwedd y byd. Bydd i'r eglwys barhau hyd ddiwedd y byd ac felly rhaid i apostolion, efengylwyr a phroffwydi barhau, beth bynnag y'u gelwir, er mwyn hyrwyddo gair a gwaith Duw." <sup>vii</sup>
26. Mae'r un efengyl a bregethir yn y cynulleidfaoedd yn llais byw (*viva vox evangelii*). Fodd bynnag, ni ellir cymryd pregethu'r efengyl yn briodol ym mhobman yn ganiataol gan fod dysgu diffygiol bob amser yn bosibl ac yn digwydd yn ymarferol. O'r herwydd, sefydlwyd trefn o ymweld ar gyfer arolygu'n gynnar yn yr ardaloedd a dderbyniodd y Diwygiad Protestannaidd. Roedd yn amlwg bod y Diwygwyr yn cydnabod ac yn cadarnhau'r angen am weinidogaeth episcopa (goruchwylwyr). Geilw Cyffes Awgsbwrg am ufudd-dod i esgobion drwy hawl dwyfol, *de iure divino* (CA 2) <sup>viii</sup>, ond caniateir yr hawl hefyd i gynulleidfaoedd wrthod ufuddhau i esgobion nad ydynt yn dysgu'n unol â'r efengyl. Mae hynny'n rhagdybio gallu cynulleidfaoedd, sy'n byw'n unol â Gair Duw, i adnabod llais y Bugail Da (Ioan 10.27) ac i wahaniaethu rhwng dysgeidiaeth wir ac anwir. <sup>ix</sup>

### III. Y Genhadaeth ac Apostoligrwydd yr Eglwys

27. Fel y mae'r eglwys yn uniaethu â Christ ac yn derbyn bendithion ei gyfiawnder, bydd hefyd yn uniaethu â chenhadaeth Crist, a anfonir gan y Tad yn yr Ysbryd Glân. Mae Crist yn anfon ei ddisgyblion fel yr anfonwyd yntau (Ioan 20.21): "Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Deisyf yr ydym dros Grist, cymoder chwi â Duw" (2 Corinthiaid 5.20). Gelwir yr eglwys i gyhoeddi cymod â Duw ac i arfer cariad iachusol Duw mewn byd a glwyfwyd gan erledigaeth, gormes ac anghyfiawnder, gan amlygu dirgelwch cariad Duw, presenoldeb Duw a Theyrnas Dduw. Dylid gosod gweinidogaeth episcopa, gyda'i chyfrifoldeb arbennig i ofalu am undod a thwf yr eglwys, yng nghyd-destun cenhadaeth yr eglwys fel pobl Dduw ynghyd.
28. Anfonodd Iesu Fair Magdalen i gyhoeddi ei bod wedi gweld yr Arglwydd atgyfodedig (Mathew 28.10, Luc 24.10, Ioan 20.17b). <sup>x</sup> Ar ôl i Fair Magdalen a'r gwagedd eraill gyhoeddi'r newyddion da ac ar ôl i Iesu ymddangos i'r disgyblion fe'u hanfonwyd i wneud "disgyblion o'r holl genhedloedd". Mae'r Crist Atgyfodedig yn addo bod gyda hwy yn y genhadaeth honno "hyd ddiwedd amser" (Mathew 28.20). Y genhadaeth y galwyd yr apostolion iddi yw cenhadaeth yr eglwys gyfan drwy hanes. Yn rhinwedd y modd y mae'r genhadaeth honno'n llywio'r eglwys y gellir yn wir alw'r eglwys yn apostolaidd.



29. Trosglwyddo (*traditio*) y genhadaeth honno, y mae'r Ysbryd Glân yn gwneud Crist yn bresennol ynnddi fel Gair Duw, yw prif ystyr y traddodiad apostolaidd. Golyga'r traddodiad apostolaidd yn yr eglwys bod nodweddion digyfnewid eglwys yr apostolion yn parhau: tystio i'r ffydd apostolaidd, cyhoeddi'r efengyl a dehongli'r Ysgrythurau'n ffyddlon, gweinyddu bedydd a'r ewcharist, arfer a throsglwyddo cyfrifoldebau gweinidogaethol, cymundeb mewn gweddi, cariad, llawenydd a dioddefaint, gwasanaethu'r cleifion a'r anghenus, undod ymysg yr eglwysi lleol a rhannu'r rhoddion a roes yr Arglwydd i bawb. Parhad y traddodiad hwnnw yw'r olyniaeth apostolaidd.
30. Mewn bedydd, gelwir pob Cristion i gyfranogi yn y genhadaeth honno ac arfogir pob Cristion ar gyfer hynny. Bydd Duw'r Ysbryd Glân yn arllwys ei roddion ar yr eglwys gyfan (Effesiaid 4.11-13; 1 Corinthiaid 12.4-11) a geilw ddyddion a gwragedd i gyfrannu tuag at feithrin y gymuned. Felly bydd yr eglwys gyfan a phob aelod ohoni'n cyfrannu tuag at gyhoeddi'r efengyl mewn gair a gweithred ac o'r herwydd yn cyfranogi yn olyniaeth apostolaidd yr eglwys.
31. I Lwtheriaid, mynegir y ddysgeidiaeth apostolaidd yn ei hanfod yn yr Ysgrythurau fel yr hyn sy'n gosod safon (*norma normans*) y ffydd ac yn y credoau hanesyddol a'r ysgrifeniadau cyffesiadol Lwtheraidd fel y safon a osodwyd (*norma normata*). Fe'i mynegir yn barhaus yn y traddodiadau addoli litwrgaidd ac mewn celf, pensaerniaeth, cerddoriaeth a llên ysbrydol. Gall yr Ysbryd Glân ddefnyddio amrywiol ffyrdd i alw'r eglwys at y traddodiad apostolaidd a'i chynnal yn y traddodiad hwnnw sy'n rhoddi iddi ei hunaniaeth. Yn yr ystyr hwnnw mae'r eglwys fel corff yn gymuned o draddodiad byw sy'n ymfurfio ac yn mynegi ei hun mewn llawer o wahanol ffyrdd. Fel rhodd Duw yng Nghrist drwy'r Ysbryd Glân, mae apostoligrwydd yn nodwedd sydd â llawer o agweddau ac fe'i mynegir yn nysgeidiaeth, cenhadaeth a gweinidogaeth yr eglwys. Geilw Duw'r eglwys i fod yn ffyddlon ar sail ffyddlondeb Duw ei hun i'w nod o gynnal yr eglwys yn y gwirionedd a'r cariad dwyfol er gwaethaf y ffaith bod yr eglwys yn doredig, yn amwys ac yn anffyddlon.
32. Fel eglwys sy'n perthyn i Iesu Grist, mae eglwysi Lwtheraidd yn hawlio'r hunaniaeth apostolaidd honno. Ystyriai'r Diwygwyr Lwtheraidd fod natur apostolaidd diwinyddiaeth ac arferion bugeiliol eglwysi'r gorllewin dan fygythiad. Gobeithiai'r Diwygiad Protestannaidd weld adnewyddu'r eglwys gatholig mewn gwir barhad â chenhadaeth efengylaidd yr apostolion.
33. Mae parhad yr eglwys o ddyddiau'r apostolion weithiau wedi'i uniaethu â rhai ffurfiau ynysig o olyniaeth yn unig. Felly, cyfyngwyd ystyr yr "olyniaeth apostolaidd" weithiau i ffurfiau penodol o barhad mewn gweinidogaeth esgobol, megis cadwyn ddi-dor o arddodi dwylo. Adeg y Diwygiad Protestannaidd, pwysleisiai'r eglwysi Lwtheraidd wahanol fathau o barhad, megis parhad pobl Dduw yn ffydd yr efengyl, parhad y weinidogaeth ordeiniedig, a pharhad addoli mewn un lle. Credai'r holl eglwysi Lwtheraidd iddynt ddiogelu'r un weinidogaeth apostolaidd a sefydlodd Duw ei hun.
34. Mae trafodaethau eciwmenaidd diweddar wedi symud y tu hwnt i syniadau cyfyngedig ynghylch yr olyniaeth apostolaidd i ddealltwriaeth gyfoethocach a mwy cynhwysfawr o gymeriad apostolaidd yr eglwys gyfan wrth iddi barhau i arfer y genhadaeth apostolaidd yn nerth yr Ysbryd. Mae'r ddealltwriaeth ddyfnach honno wedi cyfoethogi diwinyddiaeth ac arferion amryw o eglwysi ac wedi agor posibiladau eciwmenaidd newydd wrth i eglwysi ddod yn fwy abl i adnabod cymeriad apostolaidd eglwysi eraill. Dim ond diolch a all Lwtheriaid am y cyfoethogi hwnnw a cheisio bod yn fwy ffyddlon eu hunain i gyflawnder y traddodiad apostolaidd.

#### IV. Y Weinidogaeth Ordeiniedig yn Gwasanaethu Cenhadaeth Apostolaidd yr Eglwys

##### *Apostoligrwydd yr Eglwys a'r Weinidogaeth Ordeiniedig*

35. O fewn parhad apostolaidd yr eglwys gyfan ceir parhad neu olyniaeth yn y weinidogaeth ordeiniedig. Mae'r olyniaeth honno'n gwasanaethu parhad yr eglwys yn ei bywyd yng Nghrist a'i ffyddlondeb i'r efengyl a drosglwyddwyd gan yr apostolion. Mae gan weinidogion ordeiniedig y gair a'r sacramentau gyfrifoldeb arbennig dros dystio i'r traddodiad apostolaidd a thros ei gyhoeddi o'r newydd gydag awdurdod ym mhob cenhedlaeth.
36. Derbynnir pobl drwy fedydd i offeiriadaeth Crist ac felly i genhadaeth yr eglwys gyfan. Gelwir pawb a fedyddir i gyfrannu yn addoliad (*leitourgia*), tystiolaeth (*martyria*) a gwasanaeth (*diaconia*) yr eglwys a rhannu'r cyfrifoldeb amdanynt. Nid yw bedydd ar ei ben ei hun, fodd bynnag, yn golygu penodi neb i swydd yng ngweinidogaeth ordeiniedig yr eglwys. "Ni all unrhyw unigolyn hawlio iddo'i hun yr hyn sy'n eiddo i bawb yn gyffredin oni fydd wedi'i alw i hynny." <sup>xi</sup> Bydd gweision ordeiniedig yr eglwys yn cyflawni tasg benodol o fewn cenhadaeth a gweinidogaeth holl bobl Dduw.
37. Mae gweinidogaeth gyhoeddus ordeiniedig y gair a'r sacramentau'n un o roddion Duw i'r eglwys ac mae'n angenrheidiol i alluogi'r eglwys i gyflawni ei chenhadaeth. Mae ordeinio'n rhoi'r hawl a'r awdurdod i gyhoeddi gair Duw ar goedd ac i weinyddu'r sacramentau sanctaidd. Gwasanaeth y gair a'r sacramentau yw'r weinidogaeth arbennig hon a gyflwynir drwy ordeinio, ac mae'n hanfodol i alluogi'r eglwys i fod yr hyn y mae Duw'n ei galw i fod. Gan mai rhodd Duw yw'r weinidogaeth hon, nid eiddo personol mohoni i unrhyw weinidog. Mae eglwysi Lwtheraidd, yn yr un modd ag eglwysi eraill, yn ordeinio gweinidogion am oes, ond byddant yn arfer y weinidogaeth ordeiniedig yn unol â disgyblaeth, rheolau a rheoliadau'r eglwys.
38. Mae'r weinidogaeth ordeiniedig yn rhan barhaol o'r eglwys. Er mwyn atebolrwydd yr eglwys yn y byd rhaid i'r weinidogaeth ordeiniedig fod yn amlwg bob adeg a rhaid ei harfer yn unol â gofynion cenhadol yr amser a'r amgylchiadau sy'n gyd-destun iddi. I ategu gwasanaeth y gweinidogion ordeiniedig, bydd eglwysi weithiau'n bendithio ac yn comisiynu Cristnogion llewg i gyflawni tasgau penodol a allai hefyd berthyn i waith gweinidog. Mae gwasanaethu yn y fath ffyrdd yn cynrychioli agweddau penodol ar weinidogaeth yr eglwys gyfan.
39. Mae ordeinio diaconiaid yn fater agored yn y cymuned Lwtheraidd byd-eang. Mae hefyd syniadau gwahanol ynghylch y modd y deallir sut y mae gweinidogaethau diaconiaid, bugeiliaid a gweinidogion episcopa yn perthyn i'w gilydd yng nghyd-destun un weinidogaeth ordeiniedig yr eglwys. Mae rhai eglwysi Lwtheraidd wedi symud ymhell tuag at gydnabod un weinidogaeth driphlyg, tra nad yw eraill yn ystyried y patrwm hwnnw'n addas ar eu cyfer hwy. Yn gyffredinol nid yw'r traddodiad Lwtheraidd yn synio am y weinidogaeth ddiaconaidd fel dim ond cam tuag at ordeinio fel bugail ond yn hytrach fel gwasanaeth ar wahân ac un sy'n aml am oes. Gall fod yn weinidogaeth lewg neu, yn achos rhai eglwysi Lwtheraidd, gall fod yn rhan annatod o'r weinidogaeth ordeiniedig.

*Gweinidogaeth Ordeiniedig Gwragedd a Dynion*

40. Yn anffodus, ni chofnodwyd swyddogaeth gwragedd yn eglur yn hanes yr eglwys, er enghraifft, cyfraniad Junia, y mae Paul yn ei galw'n apostol (Rhufeiniaid. 16). Mewn rhai achosion ni chofnodwyd hyd yn oed eu henwau, megis yn achos y wraig wrth y ffynnon (Ioan 4) a merched Philip, a oedd yn proffwydo (Actau 21). Am ganrifoedd dim ond dynion a allai gael eu hordeinio mewn eglwysi Lwtheraidd fel mewn eglwysi eraill. Heddiw, mae'r mwyafrif llethol o Lwtheriaid yn perthyn i eglwysi sy'n ordeinio gwragedd a dynion fel ei gilydd. Mae'r arfer hwnnw'n adlewyrchu dealltwriaeth newydd o'r dystiolaeth Ysgrythurol. Mae ordeinio gwragedd yn datgan yr argyhoeddiad bod cenhadaeth yr eglwys yn gofyn arfer doniau dynion a gwragedd fel ei gilydd yng ngweinidogaeth gyhoeddus y gair a'r sacramentau. Mae'n datgan hefyd bod cyfyngu ar y weinidogaeth ordeiniedig i ddynion yn unig yn cymylu natur yr eglwys fel arwydd o'n cymodi a'n hundod yng Nghrist drwy fedydd ar draws gwahaniaethau ethnig a gwahaniaethau mewn statws cymdeithasol a rhyw (cf. Galatiaid 3.27-28).
41. Mae Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd yn ymrwymedig i ordeinio gwragedd. Nododd Wythfed Cynulliad y Ffederasiwn: "Diolchwn i Dduw am y rhodd wych a chyfoethog i'r eglwys a ddarganfu llawer o'r eglwysi sy'n aelodau o'r Ffederasiwn wrth ordeinio gwragedd i swydd bugail. Gweddïwn y bydd holl aelodau'r Ffederasiwn ynghyd ag eraill drwy'r holl deulu eciwmenaidd yn dod i gydnabod a derbyn rhodd Duw o wragedd yn y weinidogaeth ordeiniedig ac ar gyfer ysgwyddo cyfrifoldebau arweiniol eraill yn eglwys Crist."
42. Mewn llawer o eglwysi sy'n perthyn i'r Ffederasiwn heddiw ac yn y mwyafrif o'r eglwysi Lwtheraidd mwyaf, ordeinir gwragedd nid yn unig yn fugeiliaid ond fe'u hetholir hefyd i'r weinidogaeth esgobol. Mae hynny'n adlewyrchu'r pwyslais Lwtheraidd ar undod y weinidogaeth ordeiniedig.

*Episcope fel y'i Harferir yn y Weinidogaeth Esgobol*

43. Mae angen goruchwylio cymundeb o eglwysi lleol er mwyn gwarchod ffyddlondeb yr eglwys. Gweinidogaeth ranbarthol ydyw sy'n golygu goruchwylio sawl plwyf neu gynulleidfa gyda'r diben o ofalu am fywyd eglwys gyfan. Mae cyflawni'r swyddogaeth honno'n ffyddlon yng ngoleuni'r efengyl yn allweddol bwysig i fywyd yr eglwys. Bydd gan eglwysi Lwtheraidd fel arfer weinidogaeth arolygu ranbarthol sy'n rhan o un weinidogaeth y gair a'r sacrament, er y bydd strwythurau gwahanol i'r weinidogaeth a phobl â theitlau gwahanol yn ei chyflawni.
44. Mae'r ffaith bod gweinidogaeth arbennig o oruchwylio ar waith yn gyson â natur gyffesiadol eglwysi Lwtheraidd. Mae'r Confessio Augustana yn cydnabod swydd esgob yn yr eglwys (cf. CA 28). Mae'r Gyffes yn barnu, er gwaethaf y modd y bu i'r esgobion gamddefnyddio grym bydol yn yr Oesoedd Canol diweddar, a ysgogodd y Diwygwyr i fynnu newidiadau sylfaenol yn y drefn, bod swyddogaeth arolygu yn yr eglwys, pan fyddir yn ei harfer yn y modd iawn, yn hybu yn hytrach nag yn llesteirio cyhoeddi'r efengyl.

45. Ystyria Lwtheriaid y weinidogaeth esgobol yn ffurf arbennig ar yr un swyddogaeth fugeiliol, y ministerium ecclesiasticum, ac nid yn swyddogaeth ar wahân. Mae esgobion (a gweinidogion goruchwyliol gyda theitlau eraill) hwythau'n weinidogion bugeiliol y gair a'r sacrament. Yn y cyd-destun hwnnw y dywed CA 28: "Yn ôl yr efengyl, grym yr allweddau neu rym yr esgobion yw grym eu hawdurdodi gan Dduw i bregethu'r efengyl, i faddau neu i wrthod maddau pechodau ac i weinyddu'r sacramentau. Oblegid gyda'r gorchymyn hwn yr anfonodd Crist ei apostolion ymaith [Ioan 20.21-23]: 'Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi hefyd yn eich anfon chwi ... Derbyniwch yr Ysbryd Glân.'" Gweinidogaeth fugeiliol wedi'i hawdurdodi i'w harfer ar lefel ranbarthol, uwch-gynulleidfaol yw'r weinidogaeth esgobol.
46. Fodd bynnag gan fod i'r weinidogaeth esgobol gyfrifoldeb am ardaloedd daearyddol ehangach o'r eglwys nag sy'n perthyn i fugeiliaid plwyfi neu gynulleidfaoedd unigol, mae gweinidogion esgobol yn gyfrifol am rai tasgau penodol na fydd bugeiliaid ar y lefel leol yn eu cyflawni. Bydd gweinidogion esgobol yn arwain yr eglwys yn ei chenhadaeth ac yn lleisiau atebol i'r eglwys yn y maes cyhoeddus.<sup>xii</sup> Fe'u gelwir i gynghori'r cynulleidfaedd yn y rhanbarth sydd o dan eu gofal yn eu bywyd cyffredin, yn enwedig drwy ymweld â chynulleidfaedd, ac i feithrin eu bywyd ynghyd. Rhoir iddynt yr awdurdod a'r cyfrifoldeb i ordeinio. Byddant yn goruchwyllo'r dysgu a'r arferion ysbrydol yn yr eglwysi, ac yn enwedig cyfraniad y rhai sydd wedi'u hordeinio. Yn yr holl ddyletswyddau hyn, eu cyfrifoldeb pennaf yw gofalu am ffyddlondeb apostolaidd ac undod yr eglwys yn y byd.
47. Fel un o wasanaethau'r weinidogaeth ordeiniedig, wedi'i hawdurdodi a'i harfer ar y lefel ranbarthol yn yr eglwys, bydd y weinidogaeth esgobol yn gweithredu'n bersonol, yn gynghoraidd ac yn gymunol. Gan mai gweinidogaeth gair a sacrament ydyw ni fydd gweinidogaeth arolygu byth yn fater gweinyddol neu sefydliadol yn unig. Yn hytrach, gweithreda bob amser yn bersonol, ar sail awdurdodiad, ymrwymiad ac atebolrwydd personol. Saif ar yr un pryd oddi mewn i'r gymuned ac ar wahân iddi wrth wasanaethu parhad yn y ffydd apostolaidd.
48. Ni ellir gwahanu natur bersonol y weinidogaeth ordeiniedig oddi wrth ei hagwedd gynghoraidd. Rhaid arfer y weinidogaeth esgobol yn gynghoraidd ar y cyd â gweinidogion ordeiniedig cynulleidfaedd ac ar y cyd â gweinidogion goruchwyliol eraill yn yr eglwys. Gelwir gweinidogion esgobol i gynnal perthynas gynghoraidd gadarn â chydweithwyr yn episcopa eglwysi eraill, yn arbennig yn yr un rhan o'r byd, gan gynorthwyo felly i hyrwyddo undod eglwys Crist.
49. Arferir y weinidogaeth esgobol yn gymunol hefyd, mewn perthynas agos â gwahanol adrannau'r eglwys a'u cyrff llywodraethu ar bob lefel, gan hybu gweithio ar y cyd i ddehongli'r efengyl ac ymrwymiad cyffredin i fyw bywyd Cristnogol mewn ufudd-dod i ewyllys Duw. Gelwir gweinidogion esgobol i gyflawni eu swyddogaeth arbennig o oruchwyllo bugeiliol gan ryngweithio a chydweithio â'r gymuned Gristnogol ehangach, gyda'r gymuned honno o'r herwydd yn effeithio'n gadarnhaol ar y modd yr arferir y weinidogaeth esgobol ei hun.

*Y weinidogaeth esgobol a strwythurau synodaidd yn llywodraeth yr eglwys*

50. Gelwir esgobion i swyddogaeth arbennig o arolygiaeth yn yr eglwys, ond gelwir y gymuned ehangach hefyd i gyfranogi mewn arolygu ac i farnu'r modd yr arferir y weinidogaeth esgobol. Mae'r modd y datblygodd amrywiol bwyllgorau, synodau a sefydliadau i rannu tasgau llywodraethu gyda'r esgob yn gyson â syniadau Lwtheraidd ynghylch yr eglwys. Mewn eglwysi Lwtheraidd heddiw, llywodraethir yr eglwys drwy drefn gynhwysfawr sy'n cynnwys strwythurau synodaidd a chynghoraidd gyda phobl leyg ac ordeiniedig yn cyfranogi, a lle mae swyddogaeth eglur i'r weinidogaeth esgobol.
51. Yn yr eglwys ni wahaniaethir mewn modd absoliwt rhwng y rhai sy'n cyfarwyddo a'r sawl sy'n derbyn cyfarwyddyd, rhwng y rhai sy'n addysgu a'r sawl sy'n dysgu na rhwng y bobl sy'n penderfynu a'r rhai y penderfynir drostynt. Mae pob aelod o'r eglwys, yn lleyg ac ordeiniedig, gan arfer amrywiol weinidogaethau, yn sefyll o dan awdurdod Gair Duw; pechaduriaid ffaeledig yw pawb ohonynt, eto maent oll wedi'u bedyddio a'u heneinio â'r Ysbryd. Mae atebolrwydd pob un i'w gilydd yn clymu ynghyd y gweinidogion ordeiniedig â chredinwyr bedyddiedig eraill. Arferir y weinidogaeth esgobol o fewn cymundeb doniau'r corff cyfan ac yng nghydwead holl weinidogaethau'r eglwys.
52. Yn ôl y ddealltwriaeth Lwtheraidd, mae'r eglwys yn arddel ei chyfrifoldeb am ei hathrawiaethau a'i harferion drwy drafod agored, beirniadol a thrwy brosesau eglwysig tryloyw. Bydd y prosesau hynny, a all amlygu cryn dyndra'n aml, yn cynnwys pobl a chyrrff eglwysig gyda gwahanol gyfrifoldebau, ac yn anelu at adeiladu consensws a gweithredu cytûn. Ynghyd â diwinyddion, bugeiliaid mewn cynulleidfaoedd, pobl a alwyd i weinidogaeth addysgu a phobl leyg ymroddedig, gelwir gweinidogion esgobol i'r dasg benodol o farnu athrawiaeth ym mywyd yr eglwys a gwrthod unrhyw ddysgeidiaeth sy'n anghydnaws â'r efengyl. Mae cyrrff llywodraethu yn yr eglwys (cynghorau plwyf a synodau'r eglwys) hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ffurfiol i sicrhau bod bywyd sefydliadol ac ymarferol yr eglwys yn gyson â neges yr efengyl ac yn tystio i'r neges honno.

**V. Y Weinidogaeth Esgobol ac Undod yr Eglwys***Undod fel un o nodweddion hanfodol yr eglwys*

53. Mae undod y ffyddloniaid yn seiliedig ar eu cyfranogiad drwy ffydd yn y cwlwm cariad sydd rhwng y Tad a'r Mab yn undod yr Ysbryd. Rhodd ydyw a dderbynia'r bedyddiedig yng Nghrist a rhaid felly ei dderbyn drwy ffydd. Yn ôl y traddodiad Lwtheraidd mae'r sicrwydd bod Crist yn wirioneddol bresennol yn y gymuned Gristnogol drwy'r gair a'r sacramentau wrth graidd y ffydd. Gan na ellir gwahanu Crist, ein hundod â Duw yng Nghrist, a wneir yn bosibl drwy foddion gras, yw ysgogiad sylfaenol undod Cristnogol. Undod o'r radd agosaf yw'r undod hwnnw rhwng y ffyddloniaid a Duw, sy'n golygu eu bod yn cyfranogi o'r undod cariadus mewnol sydd rhwng y Tad a'r Mab (Ioan 17.20-23) ac a rennir yn yr Ysbryd Glân. Ni ddylid synio am undod Cristnogol fel nod i ymdrechion dynol yn unig. Uwchlaw popeth, rhodd Duw ydyw, sydd i'w dderbyn yn llawen gyda ffydd ac ymroddiad.

54. I Lwtheriaid, mae'r eglwys yn un yng nghyhoeddiad cyffredin yr efengyl a gweinyddiad cyffredin y sacramentau (CA 7). Mae pob cynulleidfa sy'n addoli o gwmpas y gair a'r sacramentau'n ymgorffori'r eglwys mewn ystyr ddiwinyddol a sacramentaidd. Mae pob cynulleidfa o'r fath yn annatod gysylltiedig â phob un arall gan oresgyn ffiniau dynol cenedligrwydd, ethnigrwydd, rhyw a diwylliant, i ba raddau bynnag y bydd cynulleidfaoedd yn gwadu'r cyswllt hwnnw yn eu bywydau beunyddiol. Gwneir y cymundeb a geisiwn yn eciwmenaidd yn weladwy wrth i ni dystio ar y cyd, sy'n cynnwys cyfranogi mewn un bedydd ac un ewcharist, ac ategir hynny gan weinidogaeth sydd wedi'i chymodi. Mae'r cymundeb hwnnw mewn moddion gras yn tystio i rym y Triol Dduw i iacháu ac i uno yng nghanol rhaniadau'r hil ddynol a chynrychiola gymundeb byd-eang yr eglwys gyffredinol.
55. Comisiynir pob gweinidog ordeiniedig i wasanaethu undod a chatholigrwydd yr eglwys. Mae bugeiliaid plwyf yn arfer y weinidogaeth hon o undod oddi mewn i gynulleidfaoedd lleol a rhyngddynt. Gelwir gweinidogion esgobol mewn modd arbennig i wasanaethu undod yr eglwys a'i thraddodiad byw mewn ffyrdd sydd yn amlwg ac yn atebol. Mae eu gweinidogaeth i fod i hyrwyddo ac amlygu undod ysbrydol cynulleidfaoedd sy'n addoli â'i gilydd ac â'r eglwys fyd-eang. I'r diben hwnnw, bydd gweinidogion esgobol yn llywyddu wrth ordeinio'r rhai a alwyd i arfer swydd gweinidog. Bydd pobl ordeiniedig a lleyg eraill fel arfer yn cynorthwyo gyda gweithred yr ordeinio. Mewn termau diwinyddol, i weinidogaeth ordeiniedig yr un eglwys y byddir yn ordeinio ac nid i weinidogaeth ordeiniedig eglwys genedlaethol arbennig neu enwad penodol yn unig. Bydd y gweinidog sy'n llywyddu mewn gwasanaeth ordeinio'n gweithredu ar ran holl bobl Dduw gan wasanaethu a chynrychioli undod gweinidogaeth ordeiniedig yr eglwys.

*Y Weinidogaeth Esgobol, yr Olyniaeth Esgobol ac elfennau craidd yr Eglwys*

56. Mae parhad y weinidogaeth esgobol yn bwysig ar gyfer cenhadaeth apostolaidd yr eglwys. Gwasanaethu parhad cenhadaeth apostolaidd yr eglwys yw prif ddiben ac ystyr yr "olyniaeth esgobol". Mae'r olyniaeth honno ar waith pan drosglwyddir arolygiaeth ffyddlon y genhadaeth apostolaidd gan amlygu ymddiriedaeth yr eglwys y bydd Duw yn gwarchod ei ffyddlondeb. Gweddi yw'r arddodi dwylo ar gyfer iawn arfer y swydd y penodir iddi ac mae'r eglwys yn ffyddiog bod Duw wedi ateb y weddi honno dros y canrifoedd ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Mae parhad y weinidogaeth esgobol yn tystio i ffyddlondeb yr eglwys i'w cenhadaeth apostolaidd ond nid yw'n gwarantu ei ffyddlondeb. Hyd yn oed pan fydd y weinidogaeth esgobol yn anffyddlon, fel y gall fod ac fel sydd wedi digwydd, bydd ffyddlondeb Duw yn cynnal yr eglwys yn y gwirionedd.
57. Parhad â Christ a'r apostolion yng nghenhadaeth yr eglwys drwy amser ac ym mhobman yw prif nodwedd yr hyn a elwir fel arfer yn "olyniaeth apostolaidd" yr eglwys. Defnyddir y cysyniad hwnnw'n gyffredin hefyd ar gyfer y parhad yn y weinidogaeth ordeiniedig a sicrheir drwy i ddilyniant o weinidogion episcop gyfranogi'n olynol mewn gwasanaethau sefydlu (cysegru) gweinidogion episcop eraill. Ni ellir profi'n hanesyddol bod yr olyniaeth honno'n ymestyn yn gadwyn ddi-dor oddi wrth Grist a'i apostolion. Nid yw gwirionedd yr olyniaeth apostolaidd yn eglwys Crist yn gyfyngedig i olyniaeth yn y weinidogaeth esgobol. Fodd bynnag y mae'r ffaith bod sefydlu (cysegru) gweinidogion esgobol yn digwydd gyda chyfranogiad gweinidogion esgobol eraill o'r un rhanbarth ac o ranbarthau eraill yn y byd yn un o'r ffyrdd y mae'r eglwys yn mynegi eu hymrwymiad mewn ffydd i undod, catholigrwydd ac apostoligrwydd hanesyddol eglwys Crist.

58. Nid yw absenoldeb yr olyniaeth esgobol honno'n golygu o reidrwydd colli parhad y ffydd apostolaidd. Mae'r posibilrwydd o gydnabod y gall eglwysi fod yn apostolaidd hyd yn oed os na fyddant wedi cadw arwydd yr olyniaeth esgobol yn arwyddocaol iawn yn eciwmenaidd gan fod cydgydnabod gweinidogion sy'n arfer episcopa ar y lefel uwch-gynulleidfaol yn hanfodol ar gyfer cydnesáu eciwmenaidd rhwng eglwysi. Ar yr un pryd, bydd eglwys na chadwodd arwydd yr olyniaeth hanesyddol yn rhydd i sefydlu perthynas sy'n cynnwys cymryd rhan mewn sefydlu (cysegru) gweinidogion esgobol ar y cyd ag eglwys a gadwodd arwydd yr olyniaeth gan fabwysiadu'r arwydd iddi ei hun heb wadu ei pharhad apostolaidd blaenorol. Mae parodrwydd eglwysi Lwtheraidd i gydnabod gwerth arwydd apostoligrwydd yn yr olyniaeth hanesyddol o weinidogion esgobol ac i fabwysiadu hwnnw heb fynnu ei fod yn hanfodol yn gyfraniad at y mudiad eciwmenaidd.
59. Yn y traddodiad Lwtheraidd mae sefydlu (cysegru) gweinidogion esgobol yn cynnwys arddodi dwylo gan weddio am ddawn yr Ysbryd Glân. Fel arfer bydd o leiaf dri gweinidog esgobol arall yn cymryd rhan yn y weithred honno. Mewn nifer o eglwysi Lwtheraidd gall bugeiliaid a phobl leyg hefyd gyfranogi yn yr arddodi dwylo. Mae cyfranogiad gweinidogion esgobol o eglwysi nad ydynt yn Lwtheraidd yn arwydd o rannu yn undod ac apostoligrwydd yr eglwys gyffredinol. Wrth sefydlu (cysegru) gweinidogion esgobol mynegir arwydd yr olyniaeth apostolaidd drwy gyfranogiad gweinidogion esgobol (Lwtheraidd neu eraill) sydd hwythau wedi derbyn yr arwydd hwnnw.

## VI. Edrych tua'r Dyfodol

60. Yn eciwmenaidd, mae cymodi gweinidogaethau'r gair a'r sacrament o'r pwys mwyaf i eglwysi'r byd wrth iddynt gynyddu mewn cyd-ddealltwriaeth ddiwinyddol a rhannu fwyfwy mewn bywyd a gwasanaeth. Mae cydgydnabod gweinidogion episcopa, gyda'u gwahanol deitlau, yn arbennig o arwyddocaol wrth geisio undod gweladwy'r eglwys wrth iddi ymdrechu tuag at y cyflawnder hwnnw sydd yn parhau'n rhodd a dyhead Duw ar gyfer ei bobl (Effesiaid 1.17-23).
61. Wrth i'r eglwysi Lwtheraidd barhau i ddatblygu eu syniadau diwinyddol ynghylch y weinidogaeth yn wyneb pob her sydd iddynt o fewn eu gwahanol gyd-destunau, mae angen llawer o gyd-drafod, o fewn y teulu Lwtheraidd ac yn eciwmenaidd, ynghylch materion sy'n berthnasol i'r weinidogaeth ordeiniedig a'i swyddogaeth yn yr eglwys. Mae'r modd y deallir y weinidogaeth esgobol a ffurf y weinidogaeth honno'n fater pwysig yn hynny o beth. Ymysg y materion y dylid eu hystyried ar y cyd mae'r ffurfwasanaethau ar gyfer sefydlu (cysegru) gweinidogion esgobol a'r modd y maent yn diffinio ac yn cyfleu'r weinidogaeth honno, er enghraifft, mewn perthynas â'r ministerium ecclesiasticum. Mae hefyd angen i'r eglwysi Lwtheraidd ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd ynghylch y modd y mae'r weinidogaeth esgobol yn mynegi'r agweddau diaconaidd ar y traddodiad apostolaidd a hefyd y ffyrdd y mynegir yr agweddau personol, cynghoraidd a chymunol ar episcopa'n ymarferol. Dylai'r eglwysi bob amser fod yn ymwybodol o'r cyd-destun eciwmenaidd wrth weithio ar y materion hyn.

62. Mae amryw o eglwysi'n codi amrywiol gwestiynau mewn perthynas ag arfer y weinidogaeth esgobol. Wrth ymweld â chynulleidfaoedd mae gweinidogion esgobol yn cyflawni eu swyddogaeth o fod yn addysgwyr ffydd yr eglwys ac yn gynghorwyr ar gyfer bywyd y cynulleidfaoedd yn gyffredinol. Wrth gyflawni ei swyddogaethau gelwir ar y gweinidog esgobol i fod ar gael i glerigion fel pastor pastorum (bugail y bugeiliaid). Wrth iddynt osod blaenoriaethau yn y meysydd hynny bydd gweinidogion esgobol yn amlygu dulliau o arwain sydd yn golygu rhannu cyfrifoldeb o ddifrif gan hyrwyddo ffyrdd cydweithredol o weinidogaethu. Erys y berthynas rhwng arolygu'r eglwys yn ysbrydol a thasgau bydol llywodraethu a gweinyddu'n her i'r eglwysi. Mae'r traddodiad Lwtheraidd ynghylch dwy "gatrawd" Duw yn cynnig sail ar gyfer myfyrio diwinyddol ynghylch y broblem honno. Mater pwysig arall yw ystyried a yw'r cyfrifoldebau gweinyddol sy'n gysylltiedig â threfniadaeth eglwysig bellach wedi dod yn gymaint o faich ar amser fel mai ychydig o gyfle sy'n aros ar gyfer myfyrio diwinyddol yn gysylltiedig â phregethu a thystiolaethu.
63. Tynnir sylw'n eciwmenaidd hefyd at fywyd a ffydd bersonol y rhai a elwir i arfer gweinidogaeth esgobol. Gelwir gweinidogion esgobol i amlygu gwyleidd-dra a symrlwydd byw. Ni ddylai eu gweinidogaeth fod yn seiliedig ar dra-arglwyddiaethu ond yn hytrach ar wasanaethu, gan gofio'n arbennig y rhai sydd ar gyrion cymdeithas. Disgwylir i weinidogion esgobol ddangos eu bod wedi'u gwreiddio'n gadarn ym mywyd litwrgaidd yr eglwys drwy arwain gwasanaethau'r gair a'r sacramentau'n rheolaidd eu hunain a thrwy gynorthwyo gyda phrosesau adfywio bywyd yr eglwys mewn addoliad. Rhaid i weinidogion esgobol neilltuo amser digonol iddynt eu hunain ar gyfer gweddïo ac astudio a hefyd ar gyfer hamdden. Byddant felly'n gosod esiampl y mae ei gwir angen ar bawb arall yn yr eglwys, yn ordeiniedig a llyeg.

## VII. Casgliad

64. Yn sylfaenol, yr oedd a wnelo'r Diwygiad Protestannaidd ag apostoligrwydd yr eglwys mewn ffyddlondeb i efengyl gras Duw yn Iesu Grist, a gyhoeddid drwy'r gair a'r sacramentau ac a dderbynnid drwy ffydd. Parthed gweinidogaeth episcopale mae eglwysi'r Cymuned Lwtheraidd drwy'r byd yn cynnal ac yn datblygu ffurfiau ac arferion sy'n gwasanaethu eu cenhadaeth ddwyfol. Mae'r datganiad hwn yn trafod ffyrdd o ddeall yn ddyfnach y weinidogaeth esgobol a'i swyddogaeth mewn gwasanaeth i'r eglwys gyfan. Fel ym mhob mater, fodd bynnag, nid yng nghryfder ein hargyhoeddiadau ein hunain, yn eglurder ein dadansoddiad nac yn noethineb ein cyngor y mae'n hymddiriedaeth yn y pen draw ond yn yr Arglwydd y gelwir pob gweinidogaeth i'w wasanaethu, Iesu Grist, sydd, gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn teilyngu moliant tragwyddol.



## ATODIAD DATGANIAD LUND:

### Camau yn natblygiad y datganiad hwn

Datblygwyd y datganiad presennol drwy'r camau canlynol:

1999

Ym 1999 cymeradwyodd Cyngor Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd raglen astudio i'r Swyddfa Materion Eciwmenaidd, i'w chyflawni mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Ymchwil Eciwmenaidd, Strasbwrg, a'r Adran Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau, ar "Yr Hunaniaeth Lwtheraidd mewn Cysylltiadau Eciwmenaidd". Cyfeiriai cynllun y rhaglen at yr angen i'r Ffederasiwn wneud ei safbwynt yn eglur fel cymundeb mewn nifer o feysydd a'r mater cyntaf i'w ystyried fyddai'r "hunaniaeth Lwtheraidd mewn perthynas â'r hen olyniaeth esgobol."

2000

Ym mis Awst 2000 trefnwyd ymgynghoriad yng Ngenefa ynghylch "Proffil Eciwmenaidd Eglwysi Lwtheraidd wrth Ymgysylltu'r un pryd ag Eglwysi Esgobol ac Eglwysi Anesgobol". Casglwyd y papurau a gyflwynwyd ynghyd mewn un gyfrol.

2001-2002

Yn 2001 a 2002 trefnwyd cyfarfodydd rhanbarthol ar bwnc y weinidogaeth esgobol gyda chynrychiolwyr o eglwysi a oedd yn aelodau o'r Ffederasiwn yn 1) Columbia, De Carolina (Unol Daleithiau America), 2) Oslo (Norwy), 3) São Leopoldo (Brasil), a 4) Bwdapest (Hwngari). Trafodwyd dogfen astudio'r Ffederasiwn 'Ministry – Women – Bishops' (1993), sy'n cynnwys adrannau sylweddol ynghylch y weinidogaeth esgobol, yn y cyfarfodydd hynny. Bu i'r Swyddfa Materion Eciwmenaidd hefyd gyfrannu tuag at Gynhadledd Bugeiliaid ynghylch y weinidogaeth esgobol yn Meiganga (Camerwân), a drefnwyd gan yr Eglwys Lwtheraidd Efengylaidd yng Nghamerwân. Yn anffodus, ni fu'n bosibl trefnu ymgynghoriad rhanbarthol ar gyfer Asia. Yn ystod cyfarfodydd y Cyngor yn 2001 a 2002 trafodwyd y prosiect yn y Pwyllgor Sefydlog ar Faterion Eciwmenaidd.

2002

Ym mis Tachwedd 2002 trefnwyd ymgynghoriad ym Malta i aelodau Lwtheraidd y gwahanol gomisiynau trafod rhyngwladol y mae'r Ffederasiwn yn bartner ynddynt. Cyn y cyfarfod, paratowyd drafft sylweddol o ddatganiad ynghylch y safbwynt Lwtheraidd ar y weinidogaeth esgobol ar sail dogfennau eciwmenaidd ac astudiaethau perthnasol a wnaed gan y Ffederasiwn.<sup>xiii</sup> Cyflwynwyd sawl papur a oedd yn manylu ar bynciau'n gysylltiedig â'r thema gyffredinol. Ail-ysgrifennwyd testun y drafft yn drwyadl a chytunwyd ar ddatganiad o dan y teitl "Y Weinidogaeth Esgobol o fewn Apostoligrwydd yr Eglwys. Datganiad Lwtheraidd 2002". Cyfeirir at hwnnw fel Datganiad Malta.

2003

Yng ngwanwyn 2003 anfonwyd llyfryn yn cynnwys Datganiad Malta mewn pedair iaith at yr eglwysi a oedd yn aelodau o'r Ffederasiwn iddynt ei astudio ac ymateb iddo. Cyfeiriwyd hefyd at y prosiect yn yr Adroddiad Chwe Blynedd i Ddegfed Cynulliad y Ffederasiwn o dan y pennawd, "Sut mae Lwtheriaid yn synio am weinidogaeth esgobion yn yr eglwys?" a dosbarthwyd y llyfryn amlieithog er eu gwybodaeth i bawb a gymerodd ran yn y Cynulliad.

## 2004

Yn 2004 derbyniodd y Cyngor yn ffurfiol yr ymatebion i'r Datganiad oddi wrth yr eglwysi a oedd yn aelodau o'r Ffederasiwn a gofynnodd i grŵp bach gyflwyno adroddiad yn 2005 ar newidiadau posibl i'r testun.

## 2005

Cyflwynwyd adroddiad gyda throsolwg cynhwysfawr o ymatebion yr eglwysi i gyfarfod y Cyngor yn 2005. Pleidleisiodd y Cyngor i dderbyn yr adroddiad hwnnw ac i ofyn am lunio testun newydd yn seiliedig ar Ddatganiad 2002 gan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion a dderbyniwyd. I'r diben hwnnw penododd y Cyngor Weithgor yn cynnwys yr Athro Dr Joachim Track (Pwyllgor Gwaith Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd), yr Athro Dr Theodor Dieter (y Sefydliad Ymchwil Eciwmenaidd, Strasbwrg), y Parchedig Ddr Randall Lee (Cyfarwyddwr Materion Eciwmenaidd, yr Eglwys Lwtheraidd Efengylaidd yn America), a'r Parchedig Sven Oppegaard (Swyddfa Materion Eciwmenaidd y Ffederasiwn). Fel rhan o'i waith anfonodd y Gweithgor yr adroddiad ynghylch yr ymatebion at yr holl eglwysi a oedd yn aelodau gan eu gwahodd i ystyried a oedd y materion a oedd o bwys iddynt wedi'u cofnodi'n briodol. Ni anfonodd unrhyw eglwys sylwadau pellach o ganlyniad i hynny. Yn ogystal, anfonwyd Datganiad Malta at y prif bartneriaid mewn trafodaethau am eu sylwadau. Cafwyd ymateb sylweddol gan y Comisiwn Sefydlog Rhyng-Anglicanaidd ar Gysylltiadau Eciwmenaidd (IASCER).

## 2006

Yng ngoleuni'r sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd lluniodd y Gweithgor destun newydd, gan adeiladu ar Ddatganiad Malta. Roedd y testun newydd wedi ei ehangu'n sylweddol hefyd gyda chynnwys adran ar y Beibl, yn seiliedig ar gyfraniadau a wnaed gan yr Athro Dr Turid Karlsen Seim, ac adran ar yr Eglwys Fore, a oedd yn adeiladu ar ymatebion a gafwyd gan IASCER (cf. uchod). Cyflwynwyd y testun newydd i Bwyllgor Gwaith y Ffederasiwn, a benderfynodd ei gymeradwyo i gyfarfod y Cyngor yn 2007 yn Lund.

## 2007

Yn 2007 gwnaeth y Gweithgor waith golygyddol pellach mewn ymgynghoriad â'r Adran Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau a chyflwynodd destun diwygiedig i'r Pwyllgor Rhaglen Materion Eciwmenaidd yng nghyfarfod y Cyngor yn 2007 yn Lund. Ar y cyd â'r cyfarfod hwnnw o'r Cyngor cynhaliwyd cyfarfod o Gynhadledd Arweinwyr Eglwysi'r Ffederasiwn a dathlwyd pen-blwydd y Ffederasiwn yn drigain. Ystyriodd y Pwyllgor Rhaglen y testun diwygiedig yn fanwl ac ychwanegodd ei welliannau ei hun ato yng ngoleuni argymhellion a dderbyniwyd o gyfarfodydd rhanbarthol ac o Ymgynghoriad Gwragedd Lwtheraidd a oedd yn Esgobion, Llywyddion ac Arweinyddion yn y Weinidogaeth Arolygu.

Ar argymhelliad y Pwyllgor Rhaglen Materion Eciwmenaidd pleidleisiodd y Cyngor:

- i ddiolch i'r eglwysi a oedd yn aelodau am eu cydweithrediad yn y broses a arweiniodd at lunio'r testun "Episcopal Ministry within the Apostolicity of the Church – The Lund Statement by the Lutheran World Federation – A Communion of Churches – March 2007";
- i fynegi eu gwerthfawrogiad i'r grŵp drafftio am ei gyfraniad sylweddol tuag at y gwaith o lunio'r testun;
- i gymeradwyo'r testun fel mynegiant priodol o'r syniadaeth Lwtheraidd bresennol ynghylch y weinidogaeth arolygu;
- i dderbyn y testun fel datganiad gan y Ffederasiwn;
- i ofyn i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gyflwyno'r testun i'r eglwysi a oedd yn aelodau i'w astudio a'i gymhwyso i'w gwahanol gyd-destunau.

## i DOGFENNAU ECIWMENAIDD:

Lluniwyd y datganiad presennol gan ddefnyddio casgliadau o destunau y cytunwyd arnynt mewn trafodaethau amlochrog yn ogystal â thestunau a gytunwyd rhwng Lwtheriaid a phartneriaid eciwmenaidd mewn trafodaethau dwyochrog:

- A. Cafodd nifer o safbwyntiau ynghylch y weinidogaeth esgobol mewn perthynas â thraddodiad apostolaidd yr eglwys, a gynhwyswyd yn ddiweddarach mewn dogfennau eciwmenaidd, eu cyflwyno yn nogfen astudio Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd "Baptism, Eucharist and Ministry" ym 1982.
- B. Ymhlith yr adroddiadau o drafodaethau dwyochrog yn cynnwys Lwtheriaid ar y lefel ryngwladol y canlynol sydd wedi ystyried maes y datganiad presennol yn fwyaf uniongyrchol:
- "The Ministry in the Church"  
Adroddiad y Cyd-Gomisiwn Lwtheraidd/Catholig Rufeinig, 1982.
  - Adroddiad Niagara.  
Adroddiad yr Ymgynghoriad Anglicanaidd-Lwtheraidd ar Episcop, 1987.
  - "Church and Justification"  
Adroddiad y Cydgomisiwn Lwtheraidd/Catholig Rufeinig, 1994.
  - "Called to Communion and Common Witness"  
Adroddiad y Cydgomisiwn Lwtheraidd/Diwygiedig, 2002.
  - "Growth in Communion"  
Adroddiad y Gweithgor Rhyngwladol Anglicanaidd-Lwtheraidd, 2002.
- C. Ymhlith adroddiadau o drafodaethau'n cynnwys Lwtheriaid ar y lefel ranbarthol y canlynol sydd wedi ystyried maes y datganiad presennol yn fwyaf uniongyrchol:
- Datganiad Cyffredin Meissen  
Gan Eglwys Loegr, yr Eglwys Efengylaidd yn yr Almaen a Ffederasiwn yr Eglwysi Efengylaidd yng Ngweriniaeth Dwyrain yr Almaen, 1988.
  - Datganiad Cyffredin Porvoo  
Gan Eglwysi Anglicanaidd Prydain ac Iwerddon a'r Eglwysi Lwtheraidd Nordig a Baltig, 1993.
  - Datganiad Cyffredin Reuilly  
Gan Eglwysi Anglicanaidd Prydain ac Iwerddon ac Eglwysi Lwtheraidd a Diwygiedig Ffrainc, 1997.
  - "Called to Common Mission"  
Cytundeb ar gyfer Cymundeb Llawn rhwng yr Eglwys Esgobol yn Unol Daleithiau America a'r Eglwys Efengylaidd Lwtheraidd yn America, 1999.
  - "Called to Full Communion"  
Datganiad Waterloo gan Eglwys Anglicanaidd Canada a'r Eglwys Efengylaidd Lwtheraidd yng Nghanada, 1999.
  - "Communio Sanctorum. Die Kirche als Gemeinschaft der Heiligen"  
Gan Weithgor Dwyochrog Cynhadledd Esgobion Catholig Rufeinig yr Almaen a Kirchenleitung yr Eglwys Unedig Efengylaidd-Lwtheraidd yn yr Almaen.

ii DOGFENNAU ASTUDIO LWThERAIDD CYNHARACH AR Y WEINIDOGAETH ORDEINIEDIG:

Gwnaeth y Ffederasiwn astudiaethau sydd yn uniongyrchol berthnasol i faes y datganiad presennol yn gynharach. Cyfrannodd yr adroddiadau o'r astudiaethau hynny'n sylweddol hefyd at osod seiliau'r datganiad presennol. Cyhoeddwyd y dogfennau yn y llyfr astudio "Ministry: Women, Bishops", Ffederasiwn Lwtheraidd y Byd, Genefa 1993.

Y dogfennau unigol a gynhwysir yn y gyfrol honno yw:

- "The Lutheran Understanding of Ministry", 1983.
- "Lutheran Understanding of the Episcopal Office", 1983.
- "Women in the Ministries of the Church", 1983.
- Adroddiad o'r "Ymgynghoriad ar Weinidogaeth Ordeiniedig Gwragedd a Dynion", 1992.

iii Cf. The Apostolicity of the Church: Study Document of Lutheran-Roman Catholic Commission on Unity (Minneapolis, 2007), Rhan 1.

iv Amddiffyniad 28, yn R. Kolb a T. J. Wengert (golygyddion): The Book of Concord 2000, tudalen 178.

v "Res maxima et necessaria est omnibus ecclesiis ministerium ecclesiae et a deo solo datum et conservatum." WA 38, 423, 21-25; LW 53, 124.

vi Cf. hefyd sylwadau Melanchthon ar y Regensburger Buch yn Corpus Reformatorum 4, 367f.

vii Ynghylch y Cynghorau a'r Eglwys, LW 41, 155.

viii Er mai dim ond mewn perthynas â grym esgobion y defnyddir yr ymadrodd de iure divino yng Nghyffes Awgsbwrg nid yw hynny'n awgrymu bod swydd esgob yn wahanol i'r un weinidogaeth ordeiniedig drwy hawl dwyfol. Y meysydd lle dynoda CA 28 bod gan yr esgobion awdurdod drwy hawl dwyfol neu "yn ôl yr efengyl", yw'r union rai hynny y sefydlwyd y weinidogaeth ordeiniedig i'w cyflawni, sef "pregethu'r efengyl, maddau neu wrthod maddau pechodau ..." ac ati.

ix Martin Luther, 'Sefydlu a Phrofi o'r Ysgrythur bod gan Gynulliad neu Gynulleidfa Gristnogol yr Hawl a'r Grym i Farnu pob Dysgeidiaeth ac i Alw, Penodi a Diswyddo Addysgwyr' LW 39, 305-314.

x Cyfeiria hen draddodiad eglwysig at Fair Magdalen fel "apostol i'r apostolion" (Hipolytws ... )

xi Caethglud Fabilonaid yr Eglwys, LW 36, 116; WA 6, 566.

- xii Cf. The Diaconal Ministry in the Mission of the Church, LWF 01/2006. Mae'r llyfr hwn yn cynnwys y datganiad a'r prif gyflwyniadau o ymgynghoriad rhyngwladol ar weinidogaeth diaconiaid. Caiff yr eglwysi eu herio i ailystyried y modd y maent yn synio am weinidogaeth diaconiaid a'r ffordd y maent yn rhoi'r weinidogaeth honno ar waith fel elfen graidd o genhadaeth yr eglwys yn y byd.
- xiii Mae esgobion/gweinidogion episcopa Lwtheraidd yn aml wedi cyflawni swyddogaeth o'r fath yn y maes cyhoeddus. Hyd yn hyn, ni fanylwyd yn ddigonol ar y swyddogaeth honno mewn termau diwinyddol nac o safbwynt cyfraith eglwysig. Mae hynny'n amlygu her sy'n aros o fewn y traddodiad Lwtheraidd.

## ATODIAD 3

## AELODAU'R GWEITHGOR AR AROLYGIAETH FUGEILIOL

Y Parchedig Gwynn ap Gwilym .....	Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig Ddr Bernard Sixtus .....	Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig John Henson .....	Eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol
Y Parchedig Cathy Gale .....	Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
Y Parchedig Gordon Sollis .....	Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
Y Parchedig Marcus Robinson .....	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Adrian Williams .....	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Stuart Jackson .....	Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Ms Rhian Linecar .....	Swyddog Ffydd, Trefn a Thystiolaeth Cytûn

## AELODAU'R COMISIWN 2012

Y Parchedig Ddr Marc Dummer	
Y Parchedig John Garland	
Mr John Thorne .....	Eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol
Y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tyddewi	
Y Parchedig Gwynn ap Gwilym	
Y Parchedig Ganon Sue Huyton	
Y Parchedig Steve Wilson .....	Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig Cathy Gale*	
Y Parchedig Delyth Liddell	
Y Parchedig Gordon Sollis .....	Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
Y Parchedig Bryn Williams	
Y Parchedig Brian Matthews	
Mrs Nia Higginbotham	
Y Parchedig Marcus Robinson .....	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Peter Noble	
Y Parchedig Stuart Jackson	
Mrs Ann Shillaker .....	Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Y Parchedig Gethin Abraham-Williams (Cadeirydd)	
Y Parchedig Aled Edwards (Prif Weithredwr, Cytûn)	
Y Parchedig Anthony Gregory (Trysorydd Mygedol)	
Ms Rhian Linecar (Swyddog Ffydd, Trefn a Thystiolaeth Cytûn)	
.....	Aelodau yn Rhinwedd Swydd
Y Parchedig Ddr Sarah Rogers	
<i>(aelod o Bwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd)</i>	
Y Parchedig Ddr Bernard Sixtus	
<i>(Sylwedydd yr Eglwys yng Nghymru ar Gydgomisiwn Gweithredu'r Cyfamod rhwng Eglwys Fethodistaidd Prydain ac Eglwys Loegr)</i> .....	Sylwedyddion
Y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen .....	Cyfieithydd ar y Pryd

\* hefyd yn gynrychiolydd Methodistaidd ar Gydgomisiwn Gweithredu'r Cyfamod rhwng Eglwys Fethodistaidd Prydain ac Eglwys Loegr.